Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Sut brofiad yw bod yn blentyn anabl yng Nghymru yn 2024? Beth rydyn ni'n gwybod, a beth mae angen i ni wybod?

**Awdur: Dr Liz Stones**

**Ebrill 2025**

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i'r sylfaen bresennol o wybodaeth ynghylch profiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd ag anableddau, er mwyn amlygu bylchau yn y dystiolaeth a meysydd posibl ar gyfer ymchwil ystyrlon. Ar hyd yr adroddiad, defnyddir y term 'anabledd' i gwmpasu anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu.

**Adran 1: Dadansoddiad Anabledd Gobeithion i Gymru.** Yma cawn ddadansoddiad manwl o'r ymatebion arolwg a gafwyd gan blant sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn ystod ymgynghoriad Gobeithion i Gymru (GiG) 2023, a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru (CPC).

Yn arolwg GiG, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc nodi oedden nhw'n ystyried eu hunain yn anabl neu beidio, neu oedden nhw'n 'ansicr'. Soniodd plant a phobl ifanc oedd yn nodi bod ganddynt anabledd am lefelau is o hapusrwydd a lefelau uwch o anhapusrwydd yng nghyswllt mynd i grwpiau a chlybiau, o gymharu â'u cyfoedion heb anabledd, ac mae mynd i'r ysgol yn cael ei gysylltu'n amlach ag anhapusrwydd yn achos plant anabl o gymharu â phlant heb anabledd.

Mae plant 7-11 oed ag anableddau yn pryderu mwy na phlant heb anabledd am bob categori sy'n rhan o'r arolwg, ac eithrio Covid-19 a phrofion/arholiadau. Maen nhw'n pryderu llawer mwy am fynd i'r ysgol, sut maen nhw'n edrych, cael digon i'w fwyta, a bod â rhywle i fyw. Mae plant ag anableddau yn fwy tebygol o bryderu am fwlio ar draws pob lleoliad a restrir yn yr arolwg (yr ysgol, y cartref, clybiau, ar-lein, strydoedd, trafnidiaeth) o gymharu â phlant sydd ddim yn nodi bod ganddynt anabledd, heblaw'r ysgol, lle maen nhw'n pryderu rhywfaint yn llai. Fodd bynnag, mae plant ag anabledd yn sôn mwy na dwywaith mor aml am fwlio yn y cartref. Mae 22.5% o'r bobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn dweud nad ydynt 'byth' yn siarad ag oedolyn maen nhw'n eu trystio i wneud i'w hunain deimlo'n hapus, o gymharu â 16.2% o'r bobl ifanc heb anabledd. Mae pobl ifanc 12-18 oed sydd ag anableddau yn pryderu mwy na phlant heb anabledd am bob categori a nodir, heblaw ein planed a phrofion/arholiadau. Maen nhw'n pryderu llawer mwy am fwlio, cael digon i'w fwyta, sut maen nhw a'u teulu'n trin ei gilydd, bod â rhywle i fyw, mynd i'r ysgol, a bod gan eu teulu ddigon o arian.

Mae pobl ifanc sy'n nodi bod ganddyn nhw anabledd yn fwy tebygol o fod wedi profi bwlio'n gyffredinol ac ar draws yr holl leoliadau a restrir yn arolwg GiG, ac maen nhw'n teimlo'n llai diogel ar draws pob lleoliad, ac yn arbennig yn yr ysgol, yn eu cymdogaeth, ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn benodol, maen nhw'n fwy tebygol o gael eu bwlio ar drafnidiaeth gyhoeddus, ar-lein ac ar y stryd. Dywedodd pobl ifanc ag anabledd eu bod yn teimlo bod llai o wrandawiad a pharch iddyn nhw ar draws pob lleoliad, yn enwedig ar lefel gymunedol. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, amlygodd plant a phobl ifanc ag anableddau flaenoriaethau tebyg at sylw'r Comisiynydd i'r cyfranogwyr a nododd nad oedd ganddynt anabledd.

Mae set ddata GiG yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau plant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, ac yn amlygu meysydd posibl ar gyfer ymchwilio pellach yng

nghyd-destun diffyg gwybodaeth systematig am y grŵp yma. Mae angen gwaith ymchwil pellach i archwilio'n fanylach brofiadau a phryderon plant a phobl ifanc ag anableddau.

**Adran 2: Adolygu'r Sylfaen o Dystiolaeth.** Yma cawn drosolwg o'r ymchwil a'r dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli o ran profiadau plant anabl yng Nghymru, gan archwilio eu profiadau, y cyfleoedd a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu, a'r rhwystrau sy'n atal eu cyfranogiad a'u cynhwysiad.

Gan ddilyn y Model Cymdeithasol o Anabledd, mae'r adroddiad yn ymchwilio i sut mae plant a phobl ifanc ag anableddau yn cael eu hanalluogi gan rwystrau cymdeithasol, gan gynnwys agweddau cymdeithasol a diwylliannol, nodweddion a phriodweddau'r amgylchedd ffisegol ac adeiledig sy'n atal neu'n lleihau mynediad cyfartal, rhwystrau gwybodaeth a chyfathrebu, a rhwystrau sefydliadol nad ydynt yn darparu ar gyfer anghenion pobl ag anabledd. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cael ei lywio gan elfen gysylltiedig 'colofnau byw'n annibynnol', sef y ffactorau amgylcheddol ac unigol sy'n caniatáu i bobl ag anabledd fod â rheolaeth ar eu bywydau eu hunain, penderfynu drostynt eu hunain, cyfle cyfartal, a hunan-barch.

Mae Adran 2 yn crynhoi'r ddeddfwriaeth gyfredol a'r data sydd ar gael ynghylch plant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, gan drafod Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu ynghylch Byw'n Annibynnol, yn ogystal ag adroddiadau ymchwil a chyhoeddiadau sy'n ymchwilio i brofiadau pobl anabl yng Nghymru a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, Pwyllgorau Senedd Cymru, cynghorau lleol, academia a sefydliadau cymdeithas sifil.

Yna mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o ddulliau a chanfyddiadau ymchwil o ran anghydraddoldeb mynediad i wasanaethau, gan grynhoi ystod o adroddiadau a lywiwyd gan dystiolaeth teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc ynghylch y bwlch gweithredu rhwng y weledigaeth o ofal sy'n llywio polisi ac ymarfer, a phrofiadau rhieni, gofalwyr a phlant o gael hyd i ffordd trwy systemau cymhleth i gael mynediad at gefnogaeth, bylchau yn y gwasanaeth a ddarparir, a chyfathrebu annigonol neu wybodaeth nad yw'n hygyrch. Mae'r adroddiad yn cydnabod effaith pandemig COVID-19 a'r ymateb iddo ar y ddarpariaeth gofal iechyd yng Nghymru, ac yn trafod yr heriau penodol mae pobl ifanc ag anawsterau dysgu yn eu hwynebu.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r mecanweithiau sy'n cyfrannu at anghysondeb parhaus yn y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau i ddysgwyr anabl, ac yn crynhoi ymchwil ddiweddar yn y maes hwn. Mae'n cydnabod bod y gwaith ymchwil a wnaed gyda phlant a phobl ifanc yn parhau'n gyfyngedig, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau'n dibynnu ar ddata cyrhaeddiad meintiol a/neu ddata sylfaenol gan rieni, gofalwyr ac oedolion sy'n weithwyr proffesiynol, ac mewn rhai achosion gan blant hŷn sydd ar fin pontio o fyd addysg. Daeth yr wybodaeth hon o adroddiad yn 2024 oedd yn archwilio'r gwasanaethau o ran mynediad at addysg a gofal plant i blant a phobl ifanc ag anableddau, a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Llywodraeth Cymru.

Trafodir gwahaniaethau o ran cyflogaeth ac incwm, gan roi sylw i sut mae pobl ifanc ag anableddau yn pontio o fyd addysg i gyflogaeth. Daw'r wybodaeth yn yr adran hon o adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2025 yn crynhoi canfyddiadau ymchwiliad i'r Bwlch Cyflogaeth o ran Anabledd. Mae'r ymchwil sydd ar gael yn dangos bod myfyrwyr ag anabledd yn cael llai o gyfleoedd i fod yn brentisiaid a chael cyflogaeth, y gallan nhw ddisgwyl i'w hincwm fod yn is, a'u bod yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na'u cyfoedion heb anabledd. Ymgynghorwyd â phobl ifanc i ryw raddau ynghylch eu hanghenion a'u blaenoriaethau, ond prin yw'r dystiolaeth uniongyrchol o'u profiadau mewn lleoliadau gwaith, fel prentisiaid, na'r addasiadau rhesymol a wnaed i'w cefnogi i sicrhau cyflogaeth, na chwaith o'u profiadau o effeithiau cyflogaeth ar fyw'n annibynnol a sicrwydd ariannol, yn ogystal â hyder, iechyd, cyfleoedd i gymdeithasu a llesiant.

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r heriau yng nghyswllt hygyrchedd ac argaeledd trafnidiaeth yng Nghymru, gan roi sylw i effaith cyfyngiadau symudedd ar allu plant i gymdeithasu, eu mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau a'u hiechyd meddwl. Caiff materion ynghylch hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus eu codi'n fynych yn ystod ymchwil gyda phobl anabl, gan gynnwys rhwystrau corfforol ac o ran gwybodaeth, ond mae'r sylfaen o dystiolaeth ynghylch profiadau plant a phobl ifanc yn dal yn gyfyngedig.

Yn olaf, edrychir ar yr heriau sy'n effeithio ar greu a chynnal cyfeillgarwch a pherthnasoedd, gan gynnwys rhwystrau i gynhwysiad cymdeithasol a dysgu sgiliau cymdeithasol, a thrafodir ymchwil sy'n archwilio profiadau o fwlio ymhlith plant a phobl ifanc sydd ag anableddau. Mae plant a phobl ifanc ag anableddau yn fwy tebygol o brofi bwlio, ac mae canfyddiadau sy'n cefnogi hynny yn dod i'r amlwg o ymgynghoriad GiG. Mae cyfeillion yn hanfodol i lesiant a iechyd meddwl pob plentyn a pherson ifanc, ac mae hwn yn faes nad ymchwiliwyd yn ddigonol iddo gyda phlant a phobl ifanc ag anabledd, er gwaethaf y rhwystrau cyfarwydd sy'n llesteirio gallu plant a phobl ifanc ag anableddau i greu a chynnal cyfeillgarwch.

**Adran 3: Bylchau yn yr Wybodaeth.** Yma crynhoir y prif bethau a ddysgwyd lle gellir gweithredu, a'r cyfleoedd i gyfrannu at welliannau i fethodoleg er mwyn cefnogi ymchwilwyr ac asiantaethau i weithio'n effeithiol gyda phlant ag anableddau, a sicrhau bod eu persbectif a'u lleisiau'n cael eu cynrychioli yn y sylfaen o dystiolaeth. Mae'r argymhellion ar gyfer gweithredu'n cynnwys:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau ymchwil cyfranogol ar gyfer plant ag anableddau, yn arbennig plant ag anableddau dysgu a phlant iau, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynnwys yn fwy systematig mewn ymchwil ac ymgyngoriadau.
2. Hybu ymchwil cymheiriaid ac enghreifftiau delfrydol o ymgysylltu â ieuenctid wrth ddylunio a dadansoddi astudiaethau ymchwil am bobl ifanc.
3. Archwilio sut mae plant yn deall anabledd ac yn nodi eu bod yn anabl eu hunain, a hybu safoni er mwyn gwella'r sylfaen o dystiolaeth, gan gydnabod y nifer uchel o blant a phobl ifanc a ymatebodd i'r cwestiwn anabledd yn arolwg GiG trwy nodi eu bod yn 'ansicr'.

4. Ymchwilio i brofiadau aelwydydd lle mae gan blant a rhieni anableddau er mwyn deall yr heriau penodol maen nhw'n eu hwynebu o ran cyrchu gwasanaethau, addysg, cyflogaeth, teithio, cymdeithasu etc.
5. Cydnabod cyfraniadau plant i ddeilliannau ymchwil, gan amlygu lle llywiodd ymchwil flaenorol benderfyniadau polisi, a chydnabod cyfraniadau plant ag anableddau i'r broses wleidyddol er mwyn sbarduno mwy o ymgysylltu â phrosesau gwleidyddol yn y tymor hwy.

Mae'r adran hon hefyd yn trafod cyfleoedd thematig sy'n dod i'r amlwg o ran ymchwil bellach i chwyddo lleisiau ac arddangos profiadau a blaenoriaethau plant a phobl ifanc ag anableddau.

1. Cyfeirir yn eang at ddiffyg cludiant hwylus fel rhwystr i gynhwysiad a chyfranogiad, sy'n effeithio ar ystod o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru. Gallai ymchwil bellach archwilio i ba raddau mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ystyried ac yn ymateb yn briodol i anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, a pha newidiadau gellid eu gwneud i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y defnyddwyr hyn a'u teuluoedd.
2. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod anghydraddoldeb systematig yn y ddarpariaeth addysg a'i deilliannau yn parhau, yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, ac nad yw amgylcheddau academaidd ac addysgeg bob amser yn briodol ar gyfer dysgwyr ag anableddau a dysgwyr niwroamrywiol. Gallai fod angen ymchwil bellach i chwyddo lleisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc ag anableddau ac eiriol o blaid cymryd camau priodol.
3. Mae pobl ifanc ag anableddau yn wynebu rhwystrau parhaus i gyflogaeth. Serch hynny, mae'r dystiolaeth uniongyrchol ynghylch profiadau pobl ifanc anabl o leoliadau gwaith, prentisiaethau, neu'r addasiadau rhesymol a wnaed i'w cefnogi i gael cyflogaeth yn dal yn gyfyngedig, a gallai hwn fod yn gyfle amserol i holi ymhellach ynghylch profiadau bywyd pobl ifanc ag anableddau.
4. Gallai ymchwil bellach ac astudiaethau achos llwyddiannus ynghylch cyfeillgarwch a chyfleoedd i gymdeithasu ddarparu tystiolaeth o arfer da a chrynhoi tystiolaeth i gefnogi deilliannau mwy o gyfleoedd a chapasiti i blant a phobl ifanc ag anableddau gynnal cyfeillgarwch a pherthnasoedd.
5. Gallai canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ynghylch deinameg aelwydydd plant a phobl ifanc sydd ag anableddau gynnwys arwyddion am heriau cudd ar lefel yr aelwyd yng nghyswllt perthnasoedd sy'n dangos parch a bwlio yn y cartref. Gallai ymchwil a luniwyd yn sensitif archwilio profiadau plant a phobl ifanc ag anableddau yng nghyd-destun eu teuluoedd.

# Tabl o’r Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ 2
Tabl o’r Cynnwys ........ 6
Acronymau ........ 7
Trosolwg o’r Adroddiad ........ 8
Adran 1: Dadansoddiad Anabledd Gobeithion i Gymru ........ 9
1.1 Dull ........ 9
1.2 Priodweddau Enghreifftiol ........ 9
1.3 Canlyniadau ........ 10
1.4.1 Iechyd a Hapusrwydd ........ 10
1.4.2 Pryderon a Thestunau Consyrn ........ 11
1.4.3 Bwlio a Chamdriniaeth ........ 12
1.4.4 Gwneud bywyd yn well ........ 14
1.4 Cyfyngiadau ........ 15
Adran 2: Adolygu’r Sylfaen o Dystiolaeth ........ 16
2.1 Dull Damcaniaethol ........ 16
2.2 Trosolwg o’r ddeddfwriaeth a’r data sydd ar gael ........ 17
2.3 Mynediad at Wasanaethau ........ 20
2.4 Addysg ........ 23
2.5 Cyfleoedd i gael Cyflogaeth ........ 28
2.6 Teithio a Symudedd ........ 31
2.7 Creu a chynnal cyfeillgarwch ........ 32
2.8 Bwlio ........ 34
Adran 3: Bylchau yn yr Wybodaeth ........ 37
3.1 Cyfleoedd Methodolegol ........ 37
3.2 Cyfleoedd thematig ........ 39

## Acronymau

| | |
|---|---|
| GiG | Gobeithion i Gymru |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| BSL | Iaith Arwyddion Prydain |
| CPC | Comisiynydd Plant Cymru |
| DEG | Bwlch Cyflogaeth Anabledd |
| DRILL | Ymchwil Anabledd ar Fyw'n Annibynnol a Dysgu |
| EHRC | Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol |
| EOTAS | Addysg Heblaw am yn yr Ysgol |
| EYST | Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig |
| FAS | Sgoriau Cyfoeth Teuluoedd |
| FGD | Trafodaethau Grwpiau Ffocws |
| CDU | Cynllun Datblygu Unigol |
| PLASC | Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel y Disgybl |
| NCMH | Y Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol |
| NEET | Heb fod mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant |
| BPRh | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| AAAA | Anghenion addysgol arbennig ac anableddau |
| SHRN | Rhwydwaith Ymchwil Iechyd yn yr Ysgol |
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| CCUHPA | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledd |
| UNICEF | Cronfa Blant y Cenhedloedd Unedig |
| WED | Cronfa Ddata Arholiadau Cymru |

## Trosolwg o’r Adroddiad

Mae’r adroddiad hwn yn archwilio’r sylfaen bresennol o wybodaeth ynghylch profiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn amlygu meysydd posibl ar gyfer ymchwil ystyrlon.

Mae Adran 1 o’r adroddiad yn ddadansoddiad manwl o’r ymatebion arolwg a gafwyd gan blant sy’n nodi eu bod yn anabl yn ystod ymgynghoriad 2023 Gobeithion i Gymru (GiG), gan gynnwys nodi unrhyw wahaniaethau ar draws eu profiadau.

Mae Adran 2 yn cynnwys trosolwg crynodol o’r ymchwil a’r dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ynghylch profiadau plant anabl yng Nghymru, i gefnogi dadansoddiad cydnerth o ‘beth mae angen i ni wybod?’ Wedi’i seilio ar y model cymdeithasol o anabledd, mae’r Dadansoddiad Sefyllfa hwn yn ymchwilio i’r sylfaen o dystiolaeth ynghylch profiadau, cyfleoedd, heriau a’r rhwystrau i gynhwysiad a chyfranogiad mae plant yng Nghymru yn eu hwynebu.

Mae Adran 3 yn amlygu bylchau allweddol yn yr wybodaeth am fywydau plant anabl yng Nghymru, ar sail dadansoddiad o ddata arolwg GiG a’r adolygiad o’r ymchwil sydd eisoes yn bodoli a gyflwynwyd yn yr ail adran.

Mae gwaith Comisiynydd Plant Cymru (CPC) wedi’i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) ac yn cael ei lywio gan yr ymrwymiad i amddiffyn a hybu hawliau fel y’u hamlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA). Ymhellach, mae’r dadansoddiad o’r data sylfaenol a gasglwyd trwy arolwg Gobeithion i Gymru, yr adolygiad ehangach o adroddiadau a chyhoeddiadau sydd eisoes yn bodoli, a’r argymhellion sy’n dod i’r amlwg a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cael eu llywio gan y polisi Dim Drws Anghywir a Chynllun Cyflawni a Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Anableddau Dysgu 2022-2026.

# Adran 1: Dadansoddiad Anabledd Gobeithion i Gymru

## 1.1 Dull

Yn 2023 bu CPC yn ymchwilio i brofiadau, pryderon a gobeithion plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, a phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phlant. Bwriad yr Ymgynghoriad eang hwn, 'Ambitions for Wales / Gobeithion i Gymru'[1] oedd rhoi cyfle i'r cyfranogwyr rannu eu profiadau a chyfrannu eu barn yng nghyswllt meysydd thematig allweddol sy'n berthnasol i blant yng Nghymru. Roedd cynllun yr arolwg yn gynhwysol, gyda gweithgareddau cysylltiedig yn cael eu datblygu ar gyfer plant o dan 7 oed, plant ag anableddau dysgu dwys a lluosog (PMLD), fersiwn BSL, ac adnoddau ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn sicrhau bod modd i leisiau'r plant a'r bobl ifanc hynny gael eu clywed.

Mae prif adroddiad Gobeithion i Gymru yn cynnwys manylion y dulliau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys cynllun yr arolwg, ei strwythur, offer i ehangu hygyrchedd, a'r strategaeth ledaenu.

## 1.2 Priodweddau Enghreifftiol

Ymatebodd wyth mil, wyth cant, tri deg o blant a phobl ifanc i'r arolwg neu gwblhau'r gweithgareddau cysylltiedig. At ei gilydd, mae 6.4% o'r plant a'r bobl ifanc (o'u cyfuno) a ymatebodd i'r arolwg Gobeithion i Gymru ysgrifenedig yn nodi bod ganddynt anabledd, a dywedodd 14.9% arall eu bod nhw 'ddim yn siŵr' oes ganddyn nhw anabledd neu beidio. Mae cyfanswm o'r 311 o gyfranogwyr 7-11 oed yn nodi eu bod yn anabl, ac mae 213 o'r cyfranogwyr 12-18 oed yn nodi bod ganddynt anabledd.

Ar draws y sampl cyfan o'r holl blant 7-11 oed a fu'n cymryd rhan yn arolwg Gobeithion i Gymru, mae 6.3% o'r bechgyn a 4.2% o'r merched yn nodi bod ganddynt anabledd. Mae bron chwarter (22.7%) o'r cyfranogwyr sy'n nodi nad ydynt yn perthyn i'r naill rywedd na'r llall (n=75) yn nodi bod ganddynt anabledd.

O fewn y sampl o blant anabl 7-11 oed, mae 52.9% yn nodi eu bod yn fechgyn a 36.4% yn ferched, gyda 4.9% yn nodi nad ydynt yn perthyn i'r naill rywedd na'r llall, a 5.8% yn dewis peidio â dweud.

Ymhlith y sampl cyfan o bobl ifanc (12-18 oed), roedd y rhai oedd yn nodi eu bod yn wrywod ddwywaith mor debygol (10.7% o'r sampl) o nodi eu bod yn anabl na'r rhai sy'n nodi eu bod yn fenywod (5.1%). Ymhlith yr ymatebwyr sy'n nodi nad oes ganddynt hunaniaeth wryw na benyw (n=94), mae traean (33.3%) yn nodi eu bod yn anabl. O fewn y sampl o bobl ifanc anabl 12-18 oed, mae 47.0% yn nodi eu bod yn wrywod, 33.8% eu bod yn fenywod, 15.5% nad ydynt y naill na'r llall, ac mae 3.8% yn dewis peidio â dweud.

---

[1] Stones, L. 2023. Gobeithion i Gymru: Canlyniadau'r arolwg a dadansoddiad o brofiadau a gobeithion plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru, a'u blaenoriaethau i'r Comisiynydd. Comisiynydd Plant Cymru.

Ar draws y sampl cyfan o ymatebwyr, dewisodd 87.1% ateb yr arolwg yn Saesneg, ac ymatebodd 12.9% yn Gymraeg. Roedd yr ymatebwyr Cymraeg uchaf (17.3%) ymhlith y plant iau (7-11 oed) o gymharu â'r bobl ifanc 12-18 oed, y dewisodd 2.9% ohonyn nhw'r fersiwn Gymraeg. Ymatebodd llai o blant ag anableddau yn Gymraeg: 12.2% o'r plant a 1.4% o'r bobl ifanc. Roedd yr ymatebwyr oedd â Sgoriau Cyfoeth Teuluol uwch (FAS) yn fwy tebygol o ymateb yn Gymraeg.

Mae'n bwysig nodi bod maint y sampl yn amrywio fesul cwestiwn mewn llawer o achosion, gan fod cyfranogwyr yr arolwg yn dewis ymateb i rai cwestiynau, ond nid eraill. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, dadansoddwyd eu hymatebion dim ond os gwnaethon nhw ymateb i'r cwestiwn am anabledd a'r ail newidyn o ddiddordeb.

### 1.3 Canlyniadau

Mae'r adrannau canlyniadau wedi'u strwythuro'n thematig, gan gyflwyno'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd, a chymharu hynny â dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd gan blant a phobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd. Roedd categorïau craidd yr arolwg yn cynnwys beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus, pryderon a phethau sy'n pwyso ar eu meddyliau, profiadau o fwlio a chamdriniaeth, a blaenoriaethau a awgrymwyd wrth y Comisiynydd i wella'u bywydau.

#### 1.4.1 Iechyd a Hapusrwydd

Gwahoddwyd yr holl blant a fu'n cyfranogi i fyfyrio ar y gweithgareddau sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus; mae'r adran hon yn cymharu ymatebion plant sy'n nodi bod ganddynt anabledd, a'r rhai sydd heb anabledd, ar draws y ddau gategori oed.

*Plant 7-11 oed*

Ymatebodd y plant (7-11) mewn modd tebyg pan ofynnwyd beth maen nhw'n gwneud i deimlo'n hapus, heb ystyried anabledd, sef treulio amser gyda theulu a ffrindiau gan amlaf. Fodd bynnag, roedd mynd i'r ysgol yn cael ei gysylltu'n amlach ag anhapusrwydd yn achos plant anabl o gymharu â phlant heb anabledd.

Soniodd plant (7-11) a phobl ifanc (12-18) ag anableddau fod ganddyn nhw lefelau is o hapusrwydd a lefelau uwch o anhapusrwydd yn gysylltiedig â mynd i grwpiau a chlybiau o gymharu â phlant a phobl ifanc oedd yn nodi nad oedd ganddynt anabledd.

*Pobl ifanc 12-18 oed*

Ymhlith y bobl ifanc hŷn (12-18 oed) yn gyffredinol a'r rhai heb anableddau yn benodol, roedd yr ymatebion mwyaf poblogaidd i'r cwestiwn am fod yn hapus yn cynnwys mynd i'r ysgol, treulio amser gyda'r teulu, mwynhau hobïau, a threulio amser ar-lein. Yn achos pobl ifanc ag anableddau, y gwahaniaeth mwyaf trawiadol oedd mynd i grwpiau, oedd yn cael ei gysylltu'n llai aml â hapusrwydd, ac yn amlach ag anhapusrwydd.

Daeth tueddiadau tebyg i'r amlwg ynghylch gweithgareddau sydd ddim yn eu gwneud yn hapus. Ymhlith y bobl ifanc 12-18 oed yn gyffredinol, mae 22.3% o'r ymatebwyr yn dweud nad ydynt 'byth' yn mynd i grwpiau na chlybiau i'w gwneud nhw'n hapus, gyda gwahaniaethau bach iawn rhwng y rhywiau. O fewn y grŵp hwn, mae 39.3% o'r bobl

ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn dweud eu bod 'byth' yn mynd i grwpiau neu glybiau i'w gwneud yn hapus, o gymharu â 25.0% o'r bobl ifanc heb anabledd. Y gweithgaredd nesaf a nodwyd amlaf fel un nad oedd 'byth' yn gysylltiedig â'u gwneud yn hapus oedd siarad ag oedolion roedden nhw'n eu trystio. Dywedodd 22.5% o'r bobl ifanc sy'n nodi eu bod yn anabl nad ydynt 'byth' yn siarad ag oedolyn maen nhw'n eu trystio i wneud i'w hunain deimlo'n hapus, o gymharu ag 16.2% o'r bobl ifanc heb anabledd.

### 1.4.2 Pryderon a Thestunau Consyrn

Holwyd yr holl blant a fu'n cyfranogi am eu pryderon a'r pethau oedd yn destun consyrn iddyn nhw; mae'r adran hon yn cymharu ymatebion y plant sy'n nodi bod ganddynt anabledd a'r rhai sydd heb anabledd ar draws y ddau gategori oed.

#### *Plant 7-11 oed*

Y pryder a nodwyd amlaf gan yr holl blant 7-11 oed yn yr arolwg yn gyffredinol, a'r rhai sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu eu bod heb anabledd, fel ei gilydd, oedd ein planed. Mae plant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd hefyd yn pryderu'n aml am brofion ac arholiadau a sicrhau swydd, tra bod plant sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn amlygu eu hiechyd corff a meddwl eu hunain yn amlach nag arwyddion allanol llwyddiant.

| | **Pryderon a nodwyd amlaf ymhlith plant sy'n nodi bod ganddynt anabledd.** | **Pryderon a nodwyd amlaf ymhlith plant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.** |
|---|---|---|
| 1 | Ein planed | Ein planed |
| 2 | Eu hiechyd meddwl | Profion ac arholiadau |
| 3 | Eu hiechyd corfforol | Sicrhau swydd |
| 4 | Sicrhau swydd | Eu hiechyd meddwl |

Mae plant ag anableddau yn pryderu mwy na phlant eraill am y rhan fwyaf o gategorïau, ac eithrio COVID-19 a phrofion/arholiadau, lle mae'r ymatebion yn debyg. Yn fwyaf trawiadol, mae plant ag anableddau yn pryderu mwy na phlant heb anabledd am y canlynol:

- **Mynd i'r ysgol.** Mae mwy na dau draean (68.6%) o'r plant ag anableddau yn pryderu am fynd i'r ysgol, o gymharu â llai na hanner (45.3%) y plant nad ydynt yn nodi bod ganddynt anabledd.
- **Sut maen nhw'n edrych.** Mae dau draean (66.7%) o'r plant ag anableddau yn pryderu am sut maen nhw'n edrych, o gymharu â llai na hanner (48.1%) y plant sy'n nodi nad oes ganddyn nhw anabledd.
- **Cael digon i'w fwyta.** Mae 59.2% o'r plant ag anableddau yn pryderu am gael digon i'w fwyta, o gymharu â 43.2% o'r plant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.
- **Bod â rhywle i fyw.** Mae 62.4% o'r plant ag anableddau yn pryderu am fod â rhywle i fyw, o gymharu â 48.1% o'r plant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.

*Pobl ifanc 12-18 oed*

Ar gyfer y grŵp oedran yma, darparwyd ystod o opsiynau ymateb, gan ddatgelu materion mae pobl ifanc 'bob amser', 'yn aml' a 'weithiau' yn pryderu yn eu cylch. Cofnodwyd yr ymatebion ar ffurf ydw/nac ydw er mwyn eglurder ac i fedru dadansoddi'n gyflym.

Mae'r pryderon a nodir amlaf yr un fath ar draws y bobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd a'r rhai sydd heb anabledd, ond mae pobl ifanc ag anableddau yn pryderu'n amlach am yr holl faterion a nodwyd yn yr arolwg, ac eithrio ein planed (mae 7.7% yn llai yn pryderu am hynny) a phrofion/arholiadau (8.6% yn llai).

Dyma'r gwahaniaethau mwyaf trawiadol:

- Mae 65.2% o'r bobl ifanc ag anableddau yn pryderu am fwlio, o gymharu â 50.2% o'r rhai sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd. Mae 16.9% o'r bobl ifanc ag anableddau 'bob amser' yn pryderu am fwlio, o gymharu â 5.4% o'r bobl ifanc heb anabledd.
- Mae 37.6% o'r bobl ifanc ag anableddau yn pryderu am gael digon i'w fwyta, o gymharu â 24.2% o'r bobl ifanc heb anabledd.
- Mae 65.2% o'r bobl ifanc ag anableddau yn pryderu am sut maen nhw a'u teulu yn trin ei gilydd, o gymharu â 42.5% o'r bobl ifanc heb anabledd.
- Mae 34.3% o'r bobl ifanc ag anableddau yn pryderu am fod â rhywle i fyw, o gymharu â 23.8% o'r bobl ifanc heb anabledd.
- Mae 75.7% o'r bobl ifanc ag anableddau yn pryderu am fynd i'r ysgol, o gymharu â 67.8% o'r bobl ifanc heb anabledd. Mae 22.8% o'r bobl ifanc ag anableddau 'bob amser' yn pryderu am hyn, o gymharu â 12.1% o'r bobl ifanc heb anabledd.
- Mae 59.9% o'r bobl ifanc ag anableddau yn pryderu a fydd gan eu teulu ddigon o arian, o gymharu â 50.3% o'r bobl ifanc heb anabledd. Mae 18.3% o'r bobl ifanc ag anableddau 'bob amser' yn poeni am hyn, o gymharu â 6.3% o'r bobl ifanc heb anabledd.
- Dyw 34.8% o'r plant anabl 'byth' yn pryderu am sut maen nhw a'u teulu'n trin ei gilydd, o gymharu â 57.5% o'r plant heb anabledd.

### 1.4.3 Bwlio a Chamdriniaeth

Holwyd yr holl blant oedd yn cyfranogi am eu profiadau o fwlio a chamdriniaeth, ble roedden nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn anniogel, ac i ba raddau mae oedolion yn gofyn am eu barn ac yn rhoi sylw i beth maen nhw'n ei ddweud. Mae'r adran hon yn cymharu ymatebion y plant sy'n nodi bod ganddynt anabledd a'r rhai sydd heb anabledd ar draws y ddau gategori oed.

*Plant 7-11 oed*

Mae dros hanner (57.8%) y plant 7-11 oed yn yr arolwg yn pryderu am fwlio a chamdriniaeth. Mae plant ag anableddau ryw fymryn bach yn fwy tebygol (60.1%) o bryderu am fwlio na phlant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd (57.4%). At ei gilydd, mae rhyw draean (30.1%) o'r plant a ymatebodd yn dweud eu bod wedi profi bwlio neu gael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw, a dyw 29.6% ddim yn siŵr.

- Ym mhob lleoliad a restrir yn yr arolwg (ysgol, cartref, clybiau, ar-lein, y strydoedd, trafnidiaeith), mae plant ag anableddau yn sôn am lefelau uwch o fwlio, ac eithrio yn yr ysgol, lle mae fymryn yn is.
- Y gwahaniaeth mwyaf trawiadol o ran lleoliad bwlio yw'r cartref. Roedd plant ag anableddau dros ddwywaith mor debygol o ddweud bod bwlio yn y cartref (25.9%) o gymharu â phlant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd (12.0%).

Gofynnwyd i'r plant hefyd i ba raddau mae oedolion yn gofyn am eu barn ac yn rhoi sylw i beth maen nhw'n ei ddweud mewn amrywiol gyd-destunau. Daw mân wahaniaethau i'r amlwg rhwng plant anabl a rhai heb anabledd.

- Roedd plant 7-11 oed ag anableddau yn fwy tebygol o adrodd bod oedolion 'bob amser' neu 'weithiau' yn eu trin â pharch mewn clybiau, ac yn fwy tebygol o nodi bod gwleidyddion ac oedolion proffesiynol sy'n eu helpu (fel meddygon, gweithwyr cymdeithasol a'r heddlu) yn gwrando arnyn nhw, o gymharu â phlant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.
- Roedd plant 7-11 oed ag anableddau yn llai tebygol o ddweud bod oedolion yn gwrando ar beth maen nhw'n ei ddweud yn yr ysgol a gartref, o gymharu â phlant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.

Gwahoddwyd plant 7-11 oed hefyd i fyfyrio ar y mannau lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel. Mae llai o blant ag anableddau'n teimlo'n ddiogel ar draws pob lleoliad, o gymharu â phlant sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.

Dyma'r gwahaniaethau mwyaf trawiadol:

- Nid yw 19.1% o'r plant ag anableddau byth yn teimlo'n ddiogel yn eu tref neu eu pentref, o gymharu â 9.1% o'r plant heb anabledd.
- Nid yw 13.5% o'r plant ag anableddau byth yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, o gymharu â 4.3% o'r plant heb anabledd.
- Nid yw 23.4% o'r plant ag anableddau byth yn teimlo'n ddiogel ar y bws, y bws ysgol neu'r trên, o gymharu â 15.4% o'r plant heb anabledd.

*Pobl ifanc 12-18 oed*

Gofynnwyd i'r bobl ifanc ydyn nhw erioed wedi cael eu bwlio neu eu cam-drin oherwydd pwy ydyn nhw. At ei gilydd, roedd bron traean (30.3%) o'r bobl ifanc yn dweud eu bod wedi profi bwlio neu gamdriniaeth. Mae hyn yn codi i bron dau draean yn achos pobl ifanc ag anableddau; mae 59.1% o'r bobl ifanc sydd ag anableddau yn dweud eu bod wedi profi bwlio.

Bu'r ymatebwyr ifanc hefyd yn rhannu'r mannau lle maen nhw wedi profi bwlio. Yr un a nodwyd amlaf oedd yr ysgol, a hynny yn achos pobl ifanc ag anableddau a rhai sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd, gyda chyfraddau tebyg yn cael eu hadrodd. Fodd bynnag, soniodd pobl ifanc ag anableddau am lefelau uwch o fwlio ar draws pob lleoliad arall a nodwyd yn yr arolwg. Dyma oedd y prif wahaniaethau:

- Dywedodd 18.2% o'r bobl ifanc ag anableddau oedd wedi profi bwlio eu bod yn profi bwlio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ysgol, o gymharu â 7.8% o'r bobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.
- Dywedodd 40.5% o'r bobl ifanc ag anableddau eu bod wedi profi bwlio ar-lein, o gymharu â 32.7% o'r bobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.
- Dywedodd 13.2% o'r bobl ifanc ag anableddau eu bod wedi profi bwlio ar y stryd neu yn eu tref neu bentref, o gymharu â 5.7% o'r bobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.

Holwyd y bobl ifanc hefyd i ba raddau mae oedolion yn gofyn am eu barn ac yn rhoi sylw i beth maen nhw'n ei ddweud mewn amrywiol gyd-destunau. Mae pobl ifanc anabl yn teimlo eu bod yn cael llai o wrandawiad ar draws pob lleoliad, yn enwedig ar lefel gymunedol:

- Mae 45.9% o'r bobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed yn eu cymuned, o gymharu â 56.7% o'r bobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.

Gwahoddwyd plant hŷn hefyd i fyfyrio ar y mannau lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel. Mae pobl ifanc ag anabledd yn teimlo'n llai diogel ar draws pob lleoliad.

- Mae 17.4% o'r bobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn dweud nad ydynt byth yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol, o gymharu â 6.4% o'r bobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.
- Mae 14.8% o'r bobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn dweud nad ydynt byth yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth, o gymharu â 4.7% o'r bobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.
- Mae 22.3% o'r bobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn dweud nad ydynt byth yn teimlo'n ddiogel ar fws, bws ysgol, neu drên, o gymharu â 13.9% o'r bobl ifanc sy'n nodi nad oes ganddynt anabledd.

### 1.4.4 Gwneud bywyd yn well

Gwahoddwyd yr holl blant a fu'n cyfranogi i rannu eu blaenoriaethau er mwyn i'r Comisiynydd wella eu bywydau.

#### *Plant 7-11 oed*

Gofynnwyd i'r plant iau, "Beth fyddai'n gwneud bywydau plant yn well?" Roedd y blaenoriaethau'n gyffredinol debyg ymhlith plant anabl a rhai heb anabledd, er bod plant ag anableddau yn dewis 'bysus a threnau am ddim' yn amlach, a hefyd 'mwy o help gyda theimladau a llesiant'. Roedd plant ag anableddau yn rhoi blaenoriaeth yn llai aml i 'ceisio stopio'r bwlio', 'helpu teuluoedd i gael y pethau a'r arian mae arnyn nhw eu hangen', a 'thrin pob plentyn yr un fath ac yn gyfartal'. O ystyried cyfyngiadau data'r arolwg, mae'n amhosibl ymhelaethu ar y rhesymau am y dewisiadau.

#### *Pobl ifanc 12-18 oed*

Gwahoddwyd y bobl ifanc hefyd i rannu eu hawgrymiadau ar gyfer beth fyddai'n gwneud bywydau pobl ifanc yn well. Yr atebion a gafwyd amlaf yn gyffredinol, ac yn achos pobl

ifanc ag anableddau, oedd helpu teuluoedd i gael y pethau a'r arian mae arnyn nhw eu hangen (46.4%), mwy o gefnogaeth iechyd meddwl (44.6%) a mynd i'r afael â bwlio a throseddau casineb (43.6%). Fel yn achos y plant iau, ar draws pob categori, roedd y canlyniadau'n debyg o ran y bobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd a'r rhai sydd heb anabledd.

### 1.4 Cyfyngiadau

Lluniwyd arolwg GiG a'i weinyddu i gasglu profiadau a blaenoriaethau plant a phobl ifanc ledled Cymru, gan grynhoi ystod eang o ddata demograffig i'w ddadansoddi. Fodd bynnag, nid oedd yn canolbwyntio'n benodol ar anabledd, ac o ganlyniad, mae cyfyngiadau ar y dadansoddiad o'r data hyn sy'n ein hatal rhag cyffredinoli'r canfyddiadau.

Yn benodol, mae'r cyfyngiadau'n ymwneud â'r diffyg gwybodaeth ronynnol ynghylch natur yr anableddau a brofir gan gyfranogwyr. Ni ofynnwyd i'r cyfranogwyr am unrhyw wybodaeth ynghylch natur eu hanabledd, ac felly gallai'r sampl gynnwys ystod amrywiol o anableddau corff a meddwl. O ganlyniad, mae'n amhosibl datgrynhoi'r set ddata, archwilio'u profiadau amrywiol, nac ymchwilio'n fanwl i unrhyw anableddau penodol.

Mae'n ddiddorol bod llawer (14.9%) o'r plant a'r bobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn arolwg Gobeithion i Gymru wedi ymateb 'ansicr' i'r cwestiwn anableddau. Gallai fod sawl rheswm am hynny, ac nid oes gennym yr wybodaeth gyd-destunol i ddeall pam roedden nhw'n ansicr a beth yw cysyniad plant o anabledd yn eu profiad eu hunain. Gallem ddamcaniaethu bod y grŵp hwn o bosibl yn cynnwys plant sy'n gwisgo sbectol neu gymhorthion synhwyraidd eraill, rhai sy'n ceisio neu wedi cael diagnosis megis ADHD neu awtistiaeth, ac efallai y rhai sydd ag anafiadau dros dro megis esgyrn a dorrwyd, ymhlith rhesymau eraill. Mae hefyd yn werth ystyried nad yw rhieni a rhoddwyr gofal o reidrwydd bob amser yn rhannu diagnosis yn agored gyda'r plant yn eu gofal. O ganlyniad, gallai rhai plant fod yn anymwybodol o'u diagnosis.

Fodd bynnag, mae'n set ddata unigryw, ac mae dadansoddi'r data hyn yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar brofiadau plant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, ac yn amlygu meysydd posibl ar gyfer ymchwilio pellach yng nghyd-destun diffyg gwybodaeth systematig ynghylch y grŵp hwn.

# Adran 2: Adolygu'r Sylfaen o Dystiolaeth

## 2.1 Dull Damcaniaethol

Diffinnir dull gweithredu trosfwaol Llywodraeth Cymru gan ei ymrwymiad i'r model cymdeithasol o anabledd, a'r model hwnnw yw sylfaen yr adroddiad presennol hefyd. O ganlyniad, mae'r Dadansoddiad Sefyllfa hwn yn ymchwilio i'r sylfaen o dystiolaeth sy'n ymwneud â'r profiadau, y cyfleoedd, yr heriau a'r rhwystrau i gynhwysiad a chyfranogiad mae plant yng Nghymru yn eu hwynebu. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn cynnig nad yw'r gwahaniaethu, yr eithrio a'r gormes mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu yn ganlyniad anochel i anabledd, ond yn hytrach yn cael eu hachosi gan weithrediad a threfniant cymdeithas. O ganlyniad, mae pobl ag anableddau yn cael eu gwneud yn 'anabl' gan y rhwystrau sydd ar waith yn y gymdeithas, sy'n eu cau allan, yn gwahaniaethu yn eu herbyn ac yn eu rhoi o dan anfantais. Dyma rai o'r prif rwystrau a geir mewn Model Cymdeithasol:

1. Rhwystrau agwedd: Yr agweddau a'r rhagdybiaethau cymdeithasol a diwylliannol ynghylch pobl ag anableddau sy'n egluro, yn cyfiawnhau ac yn cyfrannu at ragfarn, gwahaniaethu yn eu herbyn a'u cau allan.
2. Rhwystrau ffisegol: Nodweddion a phriodweddau'r amgylchedd ffisegol ac adeiledig sy'n atal neu'n lleihau mynediad cyfartal.
3. Rhwystrau gwybodaeth/cyfathrebu: Gall y rhain gynnwys testun mewn fformatau anhygyrch, diffyg cyfieithwyr, neu negeseuon sy'n rhy dechnegol.
4. Rhwystrau sefydliadol: Cyd-destunau proffesiynol neu addysgol ac arferion rheoli nad ydynt yn darparu ar gyfer pobl ag anabledd.

Caiff y dadansoddiad ei lywio hefyd gan elfen gysylltiedig 'colofnau byw'n annibynnol', a adwaenir hefyd fel 12 hawl sylfaenol pobl anabl. Mae Byw'n Annibynnol yn bosibl trwy gyfuniad o amrywiol ffactorau amgylcheddol ac unigol sy'n caniatáu i bobl anabl fod â rheolaeth ar eu bywydau eu hunain, gwneud eu penderfyniadau eu hunain, cael cyfle cyfartal, a hunan-barch:

1. Gwybodaeth briodol, hygyrch;
2. Incwm digonol;
3. Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol priodol a hygyrch;
4. System drafnidiaeth gwbl hygyrch;
5. Mynediad llawn i'r amgylchedd;
6. Darpariaeth ddigonol o gymhorthion a chyfarpar technegol;
7. Argaeledd tai hygyrch ac wedi'u haddasu;
8. Darpariaeth ddigonol o gymorth personol;
9. Argaeledd addysg a hyfforddiant cynhwysol;
10. Cyfleoedd cyflogaeth cyfartal;
11. Argaeledd eiriolaeth a hunan-eiriolaeth annibynnol;
12. Argaeledd cwnsela cyfoedion.

Gan gydnabod y gall anghenion plant a phobl ifanc fod yn wahanol i rai oedolion, mae amodau sylfaenol byw'n wirioneddol annibynnol serch hynny yn darparu fframwaith gwerthfawr ar gyfer dadansoddi'r sylfaen bresennol o dystiolaeth a nodi bylchau gwybodaeth ynghylch y profiadau a'r heriau mae pobl ifanc sy'n byw gydag anableddau yng Nghymru yn eu hwynebu. Mae rhai o'r colofnau hyn yn themâu sy'n codi'n gyson ar draws y sylfaen o dystiolaeth, ac fe'u codwyd fel pryderon gan blant a phobl ifanc fu'n cyfranogi yn ymgynghoriad GiG (gwybodaeth hygyrch, darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, trafnidiaeth, addysg, a chyflogaeth). Fodd bynnag, sonnir am rai ohonynt yn anfynych mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anableddau, er enghraifft, mynediad at yr amgylchedd, digonolrwydd cymhorthion technegol a chymorth personol, ac argaeledd cwnsela gan gyfoedion.

## 2.2 Trosolwg o'r ddeddfwriaeth a'r data sydd ar gael

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiadau polisi ac ymarfer ar gyfer pobl ag anableddau, gan gynnwys anableddau dysgu. Roedd Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu ynghylch Byw'n Annibynnol[2] (2013) yn nodi meysydd blaenoriaeth allweddol rhyng-gysylltiedig ar gyfer gweithredu, gan gynnwys cyngor a gwybodaeth, eiriolaeth, gofal a chymorth personol, technoleg person-ganolog, cyflogaeth, tai, trafnidiaeth, a mynediad i leoedd. Adolygwyd y fframwaith yn ystod cyfres o gyfarfodydd, digwyddiadau ymgysylltu ac arolwg ar-lein a gynhaliwyd yn 2017, yn ogystal ag ymgynghoriad ar y fframwaith a'r cynllun gweithredu a gynhaliwyd ddiwedd 2018. Er bod rhai pobl ifanc ag anableddau wedi cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, ni fu plant iau yn rhan ohono.  Mae'r fframwaith yn nodi sut mae Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau o dan CCUHPA a hefyd yn amlygu rôl deddfwriaeth allweddol, sy'n cynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), Deddf Cydraddoldeb (2010), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2008) a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2020), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) yn fframwaith newydd statudol i newid y systemau ar wahân ar gyfer AAA ac anawsterau dysgu a/neu anableddau mewn addysg bellach a chreu system sengl ar gyfer cefnogi dysgwyr hyd at 25 oed sydd ag ADY. Mae hynny wedi creu fframwaith deddfwriaethol unedig sy'n integreiddio'r cymorth monitro, cynllunio ac asesu ar gyfer dysgwyr ag ADY, a gwella'r systemau ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor a datrys pryderon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anableddau Dysgu[3], agenda strategol ar gyfer datblygu a gweithredu polisi anabledd dysgu o 2022-2026, gyda chynllun cyflawni i gyd-fynd ag ef sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, byw'n annibynnol, addysg, cyflogaeth, tai a thrafnidiaeth.

---

[2] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[3] Llywodraeth Cymru. 2022. Learning Disability Strategic Action Plan 2022 to 2026: Our plan for developing and implementing learning disability policy from 2022 to 2026. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2022/5/2/1653395411/learning-disability-strategic-action-plan-2022-2026.pdf

Mae Deddf Cydraddoldeb y Deyrnas Unedig (2010) yn diffinio anabledd gan ddefnyddio'r model meddygol – diffinnir pobl anabl fel pobl sydd â chyflyrau penodol neu gyfyngiadau ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau nodweddiadol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sy'n llywio'r Fframwaith ar gyfer Gweithredu[4] a'r gofynion i gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth wneud 'addasiadau rhesymol' i'w polisïau a'u harferion er mwyn lleihau anghydraddoldeb y gellid ei osgoi yn cyfateb i'r model cymdeithasol o anabledd, ac yn ceisio lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cyfranogi mewn cymdeithas ar lefel gyfartal â'u cymheiriaid heb anabledd.

Mae'r arwyddair pwerus, *"Dim Byd Amdanom Hebom",* wedi cael ei ddefnyddio gan y mudiad hawliau anabledd ers degawdau. Mae'n dadlau o blaid cyfranogiad llawn wrth ddatblygu polisi a chyfleoedd cymdeithasol ac economaidd ar gyfer, gan a chyda phobl sydd ag anableddau. Mae cyfranogiad yn hawl a roddir o dan CCUHP (erthygl 12) ac mae'n un o'r egwyddorion sylfaenol a warantir gan CCUHPA. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i gyfranogi'n weithredol mewn penderfyniadau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'r mecanweithiau'n cynnwys cynghorau ysgol, fforymau ieuenctid, a Chymru Ifanc[5]. Hefyd defnyddir y saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol[6] yng Nghymru i gefnogi asiantaethau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o ddylunio, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau.

Mae nifer rhesymol o adroddiadau ymchwil a chyhoeddiadau sy'n archwilio profiadau pobl anabl yng Nghymru, o waith Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau (e.e. y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Arolygiaeth Gofal Cymru), Pwyllgorau Senedd Cymru (e.e. y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg) a chynghorau lleol ledled Cymru (e.e. Pwyllgorau Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol). Mae profiadau plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu trafod. Ond, anaml y cânt eu cynnwys yn uniongyrchol yn y broses o gasglu data.  Mae Asesu Anghenion y Boblogaeth yn ddyletswydd statudol o dan Ran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n gofyn bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn ffurfio partneriaeth i gynnal yr asesiad. Mae modd cyrchu data Cyfrifiadau Ysgol Blynyddol ar gyfer disgyblion 5-15 oed mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd o'r PLASC (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel y Disgybl)[7], sy'n cynnwys y data diweddaraf ynghylch nifer y plant cofrestredig sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUiau). Hefyd mae modd cyrchu canlyniadau TGAU a lefel-A dysgwyr trwy blatfform

---

[4] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[5] Menter gan Plant yng Nghymru yw Cymru Ifanc /Young Wales, ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae gwybodaeth ar gael yma: https://www.childreninwales.org.uk/children-young-people/young-wales/

[6] Llywodraeth Cymru. 206. Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol dros Blant a Phobl ifanc/ Children and Young People's National Participation Standards. Gweler, er enghraifft: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/Bilingual-Participation-Standards-poster2016.pdf

[7] Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel y Disgybl (PLASC). Cyrchwyd o: www.statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census

Canlyniadau Arholiad Cyfres Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru[8] a thrwy Ystadegau Cymru (Stats Wales)[9].

Mae rhwydweithiau ymchwil mewn Prifysgolion hefyd wedi cynhyrchu gwaith ymchwil a dadansoddi treiddgar, sydd wedi llywio penderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, bu ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd yn archwilio'r model 'cyflogaeth â chymorth' ac yn asesu i ba raddau y byddai'n gallu helpu mwy o bobl ifanc awtistig ac ag anableddau dysgu i sicrhau gwaith cyflogedig yng Nghymru[10]. Dylanwadodd canfyddiadau'r tîm ar bolisi Llywodraeth Cymru a'u penderfyniad i fuddsoddi £10m er mwyn lansio prosiect o'r enw 'Engage to Change'[11] oedd yn darparu cymorth cyflogaeth i 1,070 o bobl ifanc ag anhawster dysgu, anabledd dysgu, a/neu awtistiaeth dros gyfnod o 7 mlynedd. Ffurfiodd Anabledd Dysgu Cymru a'r Ganolfan Iechyd Meddwl Genedlaethol (NCMH) ym Mhrifysgol Caerdydd bartneriaeth o'r enw Dylanwadu a Hysbysu, gan symud ymlaen gyda gwaith polisi, ymchwil a gwaddol prosiect Engage to Change, a dadlau o blaid Strategaeth Hyfforddwr Swyddi Cenedlaethol i Gymru.

Mae ymchwil ar blant a phobl ifanc ag anableddau yn aml yn canolbwyntio ar faterion penodol, yn cynnwys tai, gofal cymdeithasol, iechyd a llesiant, addysg, a chyflogaeth. Mae'n cynnwys pob math o anghenion addysgol arbennig (AAA)/anghenion dysgu ychwanegol (ADY), cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, ac anableddau. Yn hanesyddol, mae llawer o'r astudiaethau sydd ar gael yn dibynnu ar ddata ystadegol eilaidd ac adolygiadau pen desg neu adolygiadau carlam. O ganlyniad, roedd astudiaethau yn cael eu hailgylchu a'u hailddefnyddio am flynyddoedd, neu hyd yn oed am ddegawdau, gan greu effaith siambr adleisio heb ychwanegu dadansoddiad ystyrlon at y sylfaen o wybodaeth. Fodd bynnag, mae adolygiadau a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyngoriadau helaeth gyda gweithwyr proffesiynol, awdurdodau lleol, cymunedau ymarfer, rhieni a gofalwyr, ac mewn rhai achosion gyda phobl ifanc yn ogystal[12]. Weithiau caiff ffeiliau achosion darparwyr gwasanaeth eu hadolygu i lywio'r dadansoddiad; er enghraifft, nododd un astudiaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2021[13] fod cyfyngiadau Covid-19 wedi llesteirio'r ymgysylltu uniongyrchol â phlant a theuluoedd, a defnyddiwyd ffeiliau achosion o ganlyniad. Yn fethodolegol, mae astudiaethau sy'n cael eu llywio gan ddata sylfaenol weithiau'n defnyddio holiaduron

---

[8] Cyfres Ystadegau ac Ymchwil: Canlyniadau arholiadau. Cyrchwyd o: https://www.gov.wales/examination-results

[9] Stats Wales. Cyrchwyd o: www.statswales.gov.wales/Catalogue

[10] Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd. ND. Supporting learning disabled and autistic young people into employment. Cyrchwyd o: www.cardiff.ac.uk/medicine/research/impact/supporting-learning-disabled-and-autistic-young-people-into-employment.

[11] Engage to Change. Cyrchwyd o: www.engagetochange.org.uk/

[12] Gweler, er enghraifft:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. 2025. Anything's Achievable with the Right Support: Tackling the Disability Employment Gap.

Llywodraeth Cymru. 2018. Rhaglen Gwella Bywydau Anableddau Dysgu. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/learning-disability-improving-lives-programme-june-2018.pdf

[13] Arolygiaeth Gofal Cymru. 2021. Let me Flourish: National review of early help, care and support and transition for disabled children in Wales. Cyrchwyd o: www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2021-11/211129-national-overview-report-disabled-children-en.pdf

arolygon ar-lein sydd â fformatau opsiynau sefydlog, amlddewis. Mae'n aml yn aneglur a oedd fformatau hygyrch ar gael, neu a ddarparwyd opsiwn Cymraeg. Mae'r arolygon hyn yn defnyddio data a gyflwynwyd gan blant a gyrchwyd trwy eu hysgolion neu gan ddarparwyr gwasanaethau, rhieni a rhoddwyr gofal, ac awdurdodau lleol[14].

Er gwaethaf yr ymrwymiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r ffaith bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn fwy mewn fforymau gwneud penderfyniadau yng Nghymru, mae'r ymgysylltu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ag anableddau yn dal yn anghyson, ac anaml y bydd plant iau a phlant ag anableddau dysgu yn cyfranogi mewn ymgyngoriadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff plant a phobl ifanc ag anableddau eu cynnwys fel cyfranogwyr ymchwil, gan ymateb i feysydd thematig a ddewiswyd ymlaen llaw a blaenoriaethau ymchwil a bennwyd gan oedolion sy'n weithwyr proffesiynol, heb gyfranogi yng ngwaith dylunio neu werthuso astudiaethau ymchwil. Eithriad i hyn, a'r unig astudiaeth ymchwil i bob golwg sydd wedi ymgysylltu â phobl ifanc ag anableddau fel cyfranogwyr gweithredol yn yr ymchwil, oedd prosiect ymchwil Cyfoedion arloesol 'Building Bridges' DRILL (Disability Research on Independent Living and Learning) ar draws y Deyrnas Unedig yn 2015-2020 [15]. Cafodd y rhaglen hon a gefnogwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ei harwain gan bobl anabl, ar gyfer pobl anabl. Cynhaliwyd yr ymchwil gan bobl ifanc a hyfforddwyd oedd â phrofiad bywyd o anabledd dysgu, ac roedden nhw'n casglu data ansoddol gan bobl ifanc 14-28 oed oedd ag anableddau dysgu.

### 2.3 Mynediad at Wasanaethau

Mae adroddiadau a chyhoeddiadau blaenorol CPC wedi amlygu'r profiadau a'r heriau penodol mae plant a phobl ifanc ag anableddau a'u teuluoedd yn eu hwynebu wrth geisio cymorth ar gyfer anghenion amrywiol. Mae tystiolaeth ac astudiaethau achos yn datgelu sut mae rhaid i deuluoedd plant anabl gael hyd i ffordd trwy systemau cymhleth i gyrchu cefnogaeth, a gallan nhw syrthio trwy'r bylchau pan nad oes gwasanaethau sy'n cyfateb i'w hanghenion. Mewn rhai achosion, maen nhw wedi cael eu cyfeirio at y darparwyr anghywir a'u rhoi ar restrau aros hir am wasanaethau amhriodol[16]. Mae ymchwil CPC yn awgrymu bod plant a phobl ifanc sy'n profi trallod o ran iechyd meddwl, llesiant emosiynol, a materion ymddygiad yn aros yn rhy hir i gael y cymorth angenrheidiol yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, ac yn cael eu 'bownsio' rhwng gwasanaethau heb eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am eu gofal. Mae'r Comisiynydd a'i thîm o'r farn y dylai gwasanaethau gyfateb i anghenion teuluoedd, ac mai ymyriadau a chymorth cynnar yw'r ffordd orau o atal problemau mwy difrifol rhag datblygu.

---

[14] Gweler er enghraifft: Arolygiaeth Gofal Cymru. 2021. Let me Flourish: National review of early help, care and support and transition for disabled children in Wales. Cyrchwyd o: www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2021-11/211129-national-overview-report-disabled-children-en.pdf

[15] Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf

[16] Comisiynydd Plant Cymru. 2020. Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant. Gwneud Cymru'n Genedl Dim Drws Anghywir – i ba raddau rydyn ni'n llwyddo? 2022. Comisiynydd Plant Cymru. Agwedd Dim Drws Anghywir at Niwroamrywiaeth: Llyfr Profiadau. 2023. Comisiynydd Plant Cymru.

Mae Fframwaith Hawl i Fyw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru yn nodi "y dylai pobl anabl fedru cyflawni eu potensial ym mhob rhan o'u bywyd, gyda chefnogaeth system iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael yn hwylus"[17]. Mewn rhai achosion, mae hygyrchedd gwasanaethau yn dal yn her i bobl ag anableddau yng Nghymru. Canfu'r adolygiad hwn o dystiolaeth o anghydraddoldeb mynediad at wasanaethau gofal iechyd i bobl anabl yng Nghymru anghysondebau o ran hyd oes disgwyliedig, llythrennedd iechyd, cyfathrebu hygyrch, a gwasanaethau iechyd meddwl, ymhlith pethau eraill[18]. Er eu bod yn fwy tebygol o fod ag anghenion gofal iechyd ychwanegol, megis iechyd meddwl gwael, mae pobl ifanc anabl yn methu cael mynediad at wasanaethau nes bod y sefyllfa'n fwy difrifol, neu hyd yn oed wedi troi'n argyfwng.[19] Cefnogir y canfyddiad hwn gan dystiolaeth teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc ar draws y sylfaen o dystiolaeth. Gall cyrchu diagnosis fod yn broses gymhleth sy'n cymryd llawer o amser, ac mae'n aml yn achosi oedi yn y broses pan fo angen diagnosis ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys addysg. Mae'r oedi'n rhannol oherwydd capasiti proffesiynol, diffyg adnoddau ac arweiniad, ac effeithiau Covid-19. Canfu dadansoddiad ar lefel y boblogaeth fod cyfraddau uwch o hunanladdiad ymhlith y boblogaeth anabl o gymharu â'r rhai sydd heb anabledd[20].

Cafodd pandemig COVID-19 hefyd effaith anghymesur ar bobl anabl[21][22]. Gan gydnabod bod gwasanaethau cymdeithasol a iechyd wedi ymateb i heriau aruthrol yn ystod y pandemig a'r cyfnod a ddaeth yn ei sgîl, mae llawer o rwystrau'n parhau, ac mae plant a theuluoedd yn dal i wynebu heriau straenus ac oedi hir o ran ymateb i'w hanghenion gwasanaeth critigol. Roedd rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn ymatebion arolwg GiG yn cyfeirio'n aml at yr heriau hyn[23] ac maen nhw'n dal yn thema gyson ar draws y sylfaen o dystiolaeth sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru.

Mae cyfranogwyr ymchwil yng Nghymru hefyd wedi adrodd bod apwyntiadau gofal iechyd byr yn anaddas i bobl ifanc ag anawsterau dysgu, ac wedi nodi bod rhai gwasanaethau iechyd arbenigol wedi bod yn arbennig o anodd i bobl ifanc anabl gael mynediad atynt, e.e. iechyd rhyw[24]. Mae ymchwil hefyd wedi nodi ffactorau amddiffynol

[17] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living: Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[18] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living: Framework and Action Plan. I weld tystiolaeth ynghylch pobl ifanc 16+ gweler hefyd: Llywodraeth Cymru. 2015. Review of evidence of inequalities in access to health services in Wales. Cyrchwyd o: https://gov.wales/review-evidence-inequalities-access-health-services-wales.

[19] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living: Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[20] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2021. Sociodemographic inequalities in suicides in England and Wales: 2011-2021. Cyrchwyd o: www.ons.gov.uk

[21] Llywodraeth Cymru. 2021 Locked out: liberating disabled people's lives and rights in Wales beyond COVID-19.

[22] Comisiynydd Plant Cymru. 2024. Coronafeirws a Fi: Deall profiadau plant a phobl ifanc anabl o'r pandemig yng Nghymru/ Cyrchwyd o: https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/experiences-of-disabled-children/

[23] Stones, L. 2023. Gobeithion i Gymru: Canlyniadau'r arolwg a dadansoddiad o brofiadau a gobeithion plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru, a'u blaenoriaethau i'r Comisiynydd. Comisiynydd Plant Cymru.

[24] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living: Framework and Action Plan.

ac addasiadau rhesymol o ran hybu iechyd ac addysg, gan gynnwys gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd, e.e. defnyddio cyfathrebu hawdd ei ddarllen ar gyfer gwiriadau iechyd blynyddol a chynyddu nifer y nyrsys cyswllt anabledd yn yr ysbyty[25]. Soniodd rhieni a gofalwyr droeon am fynediad at wasanaethau fel therapi iaith a lleferydd digonol a therapi galwedigaethol fel mentrau i wella hygyrchedd a chynhwysiad ym maes addysg[26]. Ym mis Mawrth 2023, datgelodd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth fod yr amser aros am asesiad i awtistiaeth a/neu ADHD yn amrywio rhwng 47 a 166 o wythnosau ar draws Cymru[27].

Er gwaethaf y symudiad yng Nghymru tuag at fodelau gofal integredig sy'n hybu cysylltiadau agosach rhwng gofal cymdeithasol, gwasanaethau ataliol yn y gymuned, a darpariaeth gofal iechyd, mae rhieni a gofalwyr plant ag anabledd dysgu yn dal i adrodd am brofiadau cymysg o wasanaethau gofal a chymorth. Mae canfyddiadau prosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Improvement Cymru yn 2024 yn disgrifio bwlch gweithredu rhwng y weledigaeth o ofal sy'n llywio polisi ac ymarfer a phrofiadau rhieni, gofalwyr a phlant o ofal.[28]. Defnyddiodd y prosiect ymchwil sylfaenol hwn FGDs a chyfweliadau i archwilio profiadau a phersbectifau rhieni a gofalwyr plant ag anabledd dysgu. Amlygodd y gwaith ymchwil hwn bwysigrwydd darpariaeth a seiliwyd ar hawliau ac anghenion, rôl y rhiant neu'r gofalwr fel eiriolwr, pwysigrwydd gwasanaethau a gydlynir ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, a phwysigrwydd cyfranogiad (oedolion) mewn prosesau sy'n effeithio ar deuluoedd.

Amlygir tai hefyd fel her i deuluoedd ag aelodau anabl, ac mae plant a phobl ifanc ag anableddau corfforol wedi profi anawsterau penodol wrth gael hyd i dai sy'n diwallu eu hanghenion, yn enwedig yn y sector rhentu preifat yng Nghymru[29]. Adroddir hefyd bod diffyg lleoliadau preswyl lleol addas i blant a phobl ifanc anabl yng Nghymru, ac yn arbennig i blant ag anghenion cymhleth[30]. Gall hyn arwain at leoliadau y tu allan i sir y plentyn neu'r person ifanc, neu hyd yn oed tu allan i'r wlad, yn Lloegr neu'r Alban, gyda goblygiadau o ran cynnal perthynas â theulu a ffrindiau a lleoliadau ysgol. Mae'r argymhellion ar gyfer rhoi sylw i hyn yn cynnwys cynyddu'r opsiynau tai a datblygu

---

Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[25] Llywodraeth Cymru. 2018. Learning Disability Improving Lives Programme. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/learning-disability-improving-lives-programme-june-2018.pdf

[26] Senedd Cymru. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Canfyddiadau Ymgysylltu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cyrchwyd o: https://senedd.wales/media/vu4bjot1/disabled-access-to-education-and-childcare.pdf

[27] Royal College of Paediatrics and Child Health (RCPCH) response to the Children, Young People and Education Committee's inquiry into 'Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?' 2023.

[28] Jones, Dawn. 2024. 'It sounds really good in theory': Exploring parents' and carers' experiences of accessing care and support services for their child with a learning disability. Prifysgol Wrecsam / Llywodraeth Cymru.

[29] Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol. 2022. Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg.

[30] Arolygiaeth Gofal Cymru. 2021. Let me Flourish: National review of early help, care and support and transition for disabled children in Wales. Cyrchwyd o: www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2021-11/211129-national-overview-report-disabled-children-en.pdf

modelau newydd o dai â chymorth a datrysiadau tai, iechyd a gofal cymdeithasol integredig[31].

At ei gilydd, er gwaethaf ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth teg, mae mynediad at wasanaethau'n parhau'n anghyson i bobl yng Nghymru sydd ag anableddau. Mae'r sylfaen o dystiolaeth yn datgelu sut mae teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag anableddau yn aml yn cael trafferth cyrchu'r cymorth angenrheidiol, gyda'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn adlewyrchu profiadau rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Caiff lleisiau pobl ifanc eu chwyddo'n llai aml. Cofnodwyd droeon ganlyniadau diffygion yn y gwasanaethau a ddarperir i deuluoedd plant a phobl ifanc ag anableddau, ac mae canfyddiadau arolwg GiG yn awgrymu bod plant a phobl ifanc hefyd yn pryderu am eu hiechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â diwallu eu hanghenion sylfaenol (e.e. cael digon i'w fwyta, bod â rhywle i fyw). Cyfeirir yn aml at rwystrau gwybodaeth a chyfathrebu cyson, ac mae astudiaethau'n amlygu pwysigrwydd cynnwys rhieni a gofalwyr mewn prosesau sy'n effeithio ar eu teuluoedd.

### 2.4 Addysg

Mae'r Fframwaith Byw'n Annibynnol yn galw ar addysgwyr i annog a chefnogi plant anabl i fod yn uchelgeisiol a chyflawni cymwysterau academaidd er mwyn medru dilyn gyrfaoedd o'u dewis. Mae'r adroddiad yn galw am wneud mwy i integreiddio plant mewn ysgolion prif ffrwd, gan ddarparu cymorth cynnar i blant anabl a'u teuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn barod i gael addysg, ac amgylchedd cynhwysol fydd yn cefnogi derbyn a chynnwys plant anabl. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg nad yw amgylchedd yr ysgol yn llesol i blant anabl a niwroamrywiol. Nid yw gormod o bobl yn y dosbarth, goleuo sy'n rhy llachar, byrddau arddangos prysur, a mannau gorlawn yn cyfrannu at greu amgylcheddau dysgu addas i blant yn gyffredinol, a gallan nhw fod yn arbennig o heriol i blant ag anableddau[32]. Mae Fframwaith yr Hawl i Fyw'n Annibynnol hefyd yn argymell bod plant anabl yn elwa o amrywiol arddulliau dysgu (cyffyrddol, clywedol, gweledol), a defnyddio dulliau gweithredu hyblyg, person-ganolog wedi'u teilwra i anghenion unigol, ac mae'n cynnig tablau cynghrair cynhwysedd ar gyfer ysgolion a cholegau, a phontio cyflymach i raglenni galwedigaethol lle mae academia'n achosi rhwystrau[33]. Yn ystod FGDs, cododd 79% o'r rhieni a fu'n cyfranogi bryderon ynghylch digonolrwydd y gefnogaeth a'r adnoddau oedd ar gael i bobl ifanc anabl, yn arbennig mewn lleoliadau coleg[34]. Mae rhieni hefyd yn codi pryderon ynghylch plant a phobl ifanc anabl sy'n 'syrthio rhwng dwy stôl', oherwydd nad ydynt yn gymwys i fynd i leoliad arbenigol, ond maent yn cael trafferth ymdopi mewn lleoliad prif ffrwd[35].

---

[31] Llywodraeth Cymru. 2018. Learning Disability Improving Lives Programme. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/learning-disability-improving-lives-programme-june-2018.pdf
[32] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Canfyddiadau Ymgysylltu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
[33] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living. Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf
[34] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid Dal yn ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.
[35] Senedd Cymru. ND. Sparkle: Grŵp Ffocws. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Senedd i edrych ar bolisi a deddfwriaeth ac i alw Llywodraeth Cymru i gyfrif ynghylch materion allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc; addysg; a gwasanaethau gofal iechyd, a gofal cymdeithasol o ran eu hymwneud â phlant a phobl ifanc. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad manwl yn 2024 yn archwilio'r gwahaniaethau o ran mynediad i addysg a gofal plant ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau[36]. Roedd yr adroddiad yn ceisio deall sut gall plant a phobl ifanc sy'n niwroamrywiol a/neu sydd ag anableddau corfforol, synhwyraidd, neu ddysgu gael mynediad at bob agwedd ar addysg a gofal plant. Casglwyd y dystiolaeth trwy ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus oedd yn agored i bawb, a chefnogwyd y cyfranogwyr hefyd i gyflwyno tystiolaeth ar fideo neu gwrdd â staff, a fu wedyn yn trawsgrifio'u cyfraniadau. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar hefyd, gyda sesiwn yng nghwmni Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cloi'r cyfan. Hefyd cynhaliodd tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor dros 40 o gyfweliadau teulu gyda rhieni, gofalwyr, ac weithiau gyda phlant a phobl ifanc o wahanol rannau o Gymru[37]. Sefydlwyd Panel Ymgynghorol Ar-lein gyda mwy na 15 o rieni, gofalwyr a phobl ifanc, i lywio'r prif gwestiynau ymchwil a'r adroddiad drafft. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ymweld â phum ysgol a meithrinfa ac yn cynnal trafodaethau grŵp ffocws gyda rhieni a gofalwyr. Canfu'r adroddiad fod,

> *"Nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yn cael eu hamddifadu o'u hawl i gael addysg ledled Cymru. Mae hynny'n cael effaith ar eu cyrhaeddiad addysgol, eu cyfleoedd, a'u llesiant emosiynol a meddyliol. Mae'r effeithiau'n ymestyn i'r teulu ehangach... Mae darpariaeth o safon yn rhy ddarniog ac yn dibynnu'n ormodol ar unigolion ymroddedig.[38]"*

Mae'r adroddiad cynhwysfawr hwn yn darparu trosolwg o'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi, ac yn ymdrin â'r blynyddoedd cynnar, y cyfnod cyn-ysgol, darpariaeth brif ffrwd ac ysgolion arbennig, yn ogystal â chlybiau cyn ac ar ôl ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau. Mae'n cyflwyno astudiaethau achos o brofiadau cadarnhaol a negyddol, ac yn rhoi sylw i anghenion gwahanol. Mae'r adroddiad yn archwilio anghydraddoldeb o ran mynediad, adnoddau ysgol, hyfforddiant a gwybodaeth staff, mynediad at addysgu, bwlio, darpariaeth Gymraeg, a mwy. Mae hefyd yn trafod yr effeithiau ar iechyd meddwl, llesiant a chanlyniadau addysgol, yn ogystal â chyflogaeth ac incwm rhieni ac effeithiau yn y teulu ehangach. Trafodir rhwystrau i ddarpariaeth gynhwysol, yn ogystal â mynediad at wybodaeth a dewisiadau a darpariaethau penodol ar gyfer gwahanol fathau o anableddau. Mae'r adroddiad yn cloi â 32 o argymhellion

---

[36] Senedd Cymru. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

[37] Senedd Cymru. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Canfyddiadau Ymgysylltu. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cyrchwyd o: /https://business.senedd.wales/documents/s146050/Family%20Interviews%20-%20Engagement%20Findings%20-%20Final.pdf

[38] Senedd Cymru. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. T23.

manwl i Lywodraeth Cymru, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac y mae modd gweithredu yn eu cylch.

Mae data arall a gyhoeddwyd wedi datgelu gwahaniaethau sylweddol yng nghyrhaeddiad addysgol plant anabl a rhai heb anabledd yng Nghymru, gyda chyrhaeddiad addysgol dysgwyr anabl yng Nghymru hefyd yn is nag yn Lloegr a'r Alban. Canfu'r adolygiad mwyaf cynhwysfawr o gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2023 gan y Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, fod y bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng plant anabl a rhai heb anabledd wedi ehangu ers yr adroddiad diwethaf yn 2018[39].

Yn ôl Adroddiad Fframwaith Gweithredu ynghylch Anabledd Llywodraeth Cymru, yn 2017, dim ond 20.6% o'r plant ag ADY gyflawnodd o leiaf 5 A*-C TGAU, o gymharu â 66.6% o'r plant heb ADY.[40] Amlygodd yr adroddiad hwn hefyd ostyngiadau penodol mewn cyfraddau cyrhaeddiad ymhlith gwahanol gategorïau o anabledd rhwng 2016/17 a 2018/19, oedd yn arwydd o'r heriau amrywiol mae gwahanol grwpiau o ddysgwyr ag anabledd yn eu hwynebu. Plant ag anawsterau dysgu cymedrol brofodd y gostyngiad mwyaf mewn cyfraddau cyrhaeddiad yn ystod y cyfnod hwn. Gwelodd plant ag anawsterau ymddygiad, emosiynol, a chymdeithasol hefyd eu cyfraddau cyrhaeddiad yn gostwng yn sylweddol, o 57.2% i 39.5% o fewn yr un cyfnod. Ni chafodd 15.0% o bobl anabl yn Lloegr ac 17.0% o bobl anabl yng Nghymru unrhyw gymwysterau o gwbl yn ystod y cyfnod hwn[41]. Mae Stats Wales[42] hefyd yn darparu data ynghylch cyfraddau ymrestru myfyrwyr yn ôl rhywedd, anabledd a lefel.

Mae data Cyfrifiad y Deyrnas Unedig[43] yn darparu ffigurau o'r Cyfrifiad diweddaraf yn 2021, ond nid yw'n nodi tueddiadau ymhlith plant a phobl ifanc yn benodol. Canfu'r Cyfrifiad fod dros chwarter (27.5%) y bobl anabl heb gymwysterau o gwbl, o gymharu â 16.7% o'r bobl heb anabledd. Er bod gwahaniaethau bychan yn lefel uchaf y cymwysterau a gyflawnwyd rhwng pobl heb anabledd a phobl anabl oedd â rhywfaint o gyfyngiad ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, roedd pobl anabl oedd â chyfyngiadau mawr ar eu gweithgareddau yn llawer mwy tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol o gwbl. Roedd 37.1% o'r bobl anabl oedd â chyfyngiadau mawr ar eu gweithgareddau heb gymwysterau ffurfiol o gwbl, o gymharu â phobl anabl oedd â rhywfaint o gyfyngiad ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd (20%) a phobl heb anabledd (16.7%). Roedd pobl anabl oedd â chyfyngiadau mawr ar eu gweithgareddau hefyd yn llai tebygol o fod wedi

---

[39] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. 2023. Equality and Human Rights Monitor: Is Wales Fairer? Cyrchwyd o: www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/2023/Is%20Wales%20Fairer%20Equality%20and%20Human%20Rights%20Monitor-%20English-%20accessible%20PDF.pdf

[40] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living. Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[41] UK National Statistics. 2019. Cyrchwyd o: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/bulletins/disabilityandeducationuk/2019

[42] StatsWales. Cyrchwyd o: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Enrolments-at-Welsh-HEIs/enrolments-by-gender-disability-level-mode

[43] Cyfrifiad y Deyrnas Unedig. 2021. Cyrchwyd o: https://www.gov.wales/disabled-peoples-outcomes-health-housing-education-and-economic-status-census-2021-html

cyflawni cymhwyster Lefel 4 neu uwch (17.0%) o gymharu â'r rhai yr oedd rhywfaint o gyfyngiad ar eu gweithgareddau (28.7%) a phobl heb anabledd (34.1%). Nid oedd fawr ddim gwahaniaeth rhwng pobl anabl a phobl heb anabledd o ran y categori addysg 'Arall', sy'n cynnwys prentisiaethau a chymwysterau galwedigaethol neu gysylltiedig â gwaith. Pobl anabl oedd â chyfyngiadau mawr ar eu gweithgareddau oedd fwyaf tebygol o fod wedi cyflawni cymhwyster yn y categori hwn (8.2%), gyda phobl anabl oedd â rhywfaint o gyfyngiad (8.0%) a phobl heb anabledd (7.9%) yn dynn ar eu sodlau.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod pobl ifanc anabl yn aml heb fod yn rhan o lunio'u llwybrau addysgol. Gall y diffyg cyfranogiad hwn arwain at ddewisiadau cyfyngedig wrth bontio ym myd addysg, gan effeithio o bosib ar eu gallu i gyrchu cyfleoedd addysg uwch, ac yn fwy pwysig, colli cyfleoedd i ryddhau eu potensial ar sail eu diddordebau, eu cryfderau a'u dyheadau unigryw. Mae ymgyngoriadau Gweithredu ynghylch Anabledd / Action on Disability yn awgrymu eu bod yn aml heb eu cynnwys mewn adolygiadau addysg, sy'n arwydd o fwlch yn y cynllunio rhagweithiol a'r penderfyniadau a wneir[44]. Mae ymgynghori fel sail ar gyfer y Fframwaith Gweithredu ynghylch Anabledd hefyd wedi amlygu llwybrau dilyniant cyfyngedig ar gyfer pobl ifanc anabl i addysg bellach, gwirfoddoli neu gyflogaeth. Nodwyd heriau megis diffyg cyfleoedd profiad gwaith ac opsiynau dilyniant cyfyngedig ar ôl gadael ysgol, oedd yn arwain at deimladau bod y gefnogaeth a'r cyfleoedd yn gyfyngedig[45]. Mae astudiaeth gan CPC yn 2018 oedd yn ymchwilio i sut mae pobl ifanc ag anableddau dysgu yn pontio i oedolaeth yn cefnogi hyn, gan iddi ganfod mai 7 yn unig o'r 99 o bobl ifanc ag anableddau dysgu yn yr arolwg oedd yn dweud iddynt fod yn rhan o adolygiadau addysg[46]. Yn yr un astudiaeth, dim ond 28 allan o 71 person ifanc oedd yn teimlo eu bod wedi cael cyngor ynghylch beth i'w astudio yn y coleg, a rhyw 50% oedd wedi cwrdd â Gyrfa Cymru a thrafod eu dyfodol.

Soniodd pobl ifanc ag anableddau dysgu a fu'n rhan o brosiect ymchwil cymheiriaid Codi Pontydd (Building Bridges) hefyd mai mynediad cyfyngedig oedd ganddynt i gyrsiau coleg a phrentisiaethau oherwydd diffyg cymwysterau ar gyfer astudiaethau galwedigaethol.  O'r 85 a fu'n cyfranogi, nid oedd neb wedi cael mynediad i gyrsiau cysylltiedig â gwaith, megis cyfnodau fel hyfforddeion, prentisiaethau, neu astudiaethau galwedigaethol eraill[47]. Nododd y tîm ymchwil cymheiriaid fod ysgolion yn defnyddio dulliau addysgu traddodiadol i ganolbwyntio ar gyflawniad academaidd uchel, tra bod plant sy'n meddwl ac yn dysgu mewn ffordd wahanol yn cael eu rhoi o dan anfantais, ac o bosib yn cael eu hatal rhag cyflawni hyd eithaf eu potensial. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc ag anableddau dysgu a heriau eraill yn cael trafferth

[44] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living. Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[45] Llywodraeth Cymru. 2019.  Action on Disability: The Right to Independent Living. Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[46] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid dal yn ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

[47] Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf

sicrhau cymwysterau TGAU a BTEC, sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn i bobl ifanc fynd i'r chweched dosbarth neu'r coleg, ac yn y pen draw i sicrhau cyflogaeth[48].

Yn ystod trafodaethau grŵp ffocws a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, disgrifiodd rhieni orfod brwydro dros hawl eu plentyn i gael mynediad at addysg, tra bod eu profiadau a'u cyfleoedd yn dal yn gyfyngedig o gymharu â'u cyfoedion heb anabledd[49]. Nodwyd hefyd fod plant a phobl ifanc anabl yn cael eu hatal rhag datblygu a chyflawni eu dyheadau a sicrhau cyflogaeth ystyrlon yn ddiweddarach yn eu bywydau. Yn ystod trafodaethau grŵp ffocws gyda rhieni plant anabl, nododd y rhieni hefyd fod diffyg dealltwriaeth o rai mathau o ymddygiad ymhlith y staff, a bod pwyslais yn cael ei roi ar y wedd academaidd yn hytrach na chefnogi agweddau cymdeithasol. Awgrym y rhieni yw nad yw ysgolion yn gwbl ymwybodol o'r ystod o anableddau oherwydd diffyg hyfforddiant, a bod anawsterau'n cael eu gwaethygu oherwydd diffyg arbenigedd a chysondeb staffio. Mae'r prinder staff sydd wedi cael hyfforddiant mewn anghenion toiled a hunanofal wedi rhwystro llawer o blant ag anableddau rhag mynychu addysg brif ffrwd, ac mae'n arwain at leihau oriau addysg plant anabl[50]. Mae rhieni a rhoddwyr gofal yn aml yn amlygu pwyisgrwydd aelodau staff unigol wrth bennu pa mor groesawgar, cynhwysol a hygyrch yw ysgol, yn hytrach na'r polisïau a'r arferion sy'n sylfaen i'r system addysg[51] [52].

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd o ran sefydlu mecanweithiau trosolwg i adolygu i ba raddau mae polisi a deddfwriaeth yn cael eu rhoi ar waith i ddarparu mynediad i bob plentyn a pherson ifanc at addysg o safon briodol, ond mae'r data ystadegol sydd ar gael yn dangos bod anghydraddoldebau'n parhau yn y ddarpariaeth addysg ac o ran deilliannau academaidd. Mae adroddiad 2024[53] a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n archwilio gwahaniaethau o ran mynediad at addysg a gofal plant i blant a phobl ifanc ag anableddau, yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol, gan gydnabod bod heriau'n parhau er gwaetha'r cynnydd a wnaed. Yn benodol, darparu cymorth cynnar i blant anabl a'u teuluoedd er mwyn sicrhau eu bod yn barod i gael addysg, amgylchedd cynhwysol i gefnogi derbyniad a rhoi sylw i rwystrau agwedd, cefnogaeth ymarferol ar gyfer anghenion hunanofal corfforol, yn ogystal â chydnabod a chefnogi gwahanol arddulliau dysgu ac anghenion cyfathrebu. Mae'r ymchwil a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc yn parhau'n gyfyngedig, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau'n dibynnu ar ddata cyrhaeddiad

[48] Butler, V. and Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf
[49] Senedd Cymru: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. ND. Sparkle: Grŵp Ffocws.
[50] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Canfyddiadau Ymgysylltu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
[51] Senedd Cymru: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. ND. Sparkle: Grŵp Ffocws.
[52] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Canfyddiadau Ymgysylltu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.
[53] Senedd Cymru. 2024. Ydy plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

meintiol a data sylfaenol gan rieni, gofalwyr ac oedolion sy'n weithwyr proffesiynol, ac mewn rhai achosion gan blant hŷn sydd ar fin pontio o fyd addysg.

## 2.5 Cyfleoedd i gael Cyflogaeth

Yn 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn crynhoi canfyddiadau ymchwiliad i'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan unigolion â phrofiad bywyd, elusennau, llunwyr polisi, ymgyrchwyr, academyddion, staff rheng flaen ac eraill trwy ymgynghoriad ysgrifenedig, grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un gyda phobl anabl a sesiynau tystiolaeth lafar wyneb yn wyneb ac ar Zoom. Mae'r adroddiad yn nodi bod y Bwlch Cyflogaeth Anabledd wedi gostwng yng Nghymru o 35.4 pwynt canradd i 30.9 pwynt canradd rhwng 2015-16 a 2023-24. Fodd bynnag, mae'n gyson uwch yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac mae amrywiadau sylweddol yn parhau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol[54]. Mae'r adroddiad yn nodi mai 4.8% yn unig o bobl ag anableddau dysgu sydd mewn gwaith, ac mae'n amcangyfrif mai cost gyfartalog addasiadau rhesymol i'r cyflogwr yw £75 yn unig fesul cyflogai. Amlygodd pobl ag anableddau a fu'n rhan o'r trafodaethau grŵp ffocws fod rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys agweddau negyddol at bobl anabl, yn ogystal â'r heriau corfforol mae'r amgylchedd adeiledig yn eu creu.

Amlygodd y Fframwaith ar gyfer Gweithredu ynghylch Byw'n Annibynnol gyfleoedd i gael cyflogaeth fel mater allweddol a nodwyd gan bobl anabl, sy'n cyfateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae adroddiad 2019 yn nodi, *"na all pob person anabl weithio mewn cyflogaeth am dâl; ond dylai pawb gael cyfle i fyw bywydau ystyrlon"*[55]. Mae cyflogaeth nid yn unig yn cefnogi byw'n annibynnol a sicrwydd ariannol, ond hefyd yn gallu gwella hyder, iechyd a llesiant. Rhoddir gwerth mawr ar y rhwydweithiau cymdeithasol sy'n cael eu ffurfio trwy fod mewn gwaith, ac maent yn cyfrannu at lesiant.[56]

Cyflogaeth oedd y dyhead pwysicaf i bobl ifanc ag anableddau dysgu a gafodd gyfweliad am bontio i wasanaethau oedolaeth, yn ôl adroddiad Paid Dal yn Ôl.[57] Daeth i'r amlwg hefyd fel pryder mawr i blant, gan gynnwys plant ag anableddau, ar draws data Gobeithion i Gymru (gweler Adran 1 o'r adroddiad hwn). Fodd bynnag, mae'r bwlch cyflogaeth i bobl ifanc anabl yng Nghymru yn dal yn amlwg; mae pobl ifanc ag anableddau, yn enwedig rhai 19-24 oed, yn fwy tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) na'r rhai heb anableddau.

---

[54] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. 2025. Anything's Achievable with the Right Support: Tackling the Disability Employment Gap. Llywodraeth Cymru.

[55] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living Framework and Action Plan. P20. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf.

[56] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living. Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[57] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid dal yn ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

Nod cynllun cyflogadwyedd a sgiliau Llywodraeth Cymru yn 2022[58] yw helpu pobl i uwchsgilio, cael mynediad at waith teg a ffynnu, er mwyn creu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae'r cynllun yn cynnwys manylion sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cyflogaeth i Bobl Anabl er mwyn cefnogi busnesau i recriwtio a chadw pobl anabl a chyhoeddi canllawiau i gyflogwyr. Mae'r adroddiad yn manylu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn y dull system gyfan o gyflawni'r Gwarant Pobl Ifanc a'i gryfhau fel ei fod yn hawdd i bawb o dan 25 oed gael cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng pobl anabl a phobl heb anabledd sy'n NEET, gan gydnabod bod 19.7% o'r bobl ifanc anabl 16-18 oed yn NEET dros gyfnod o dair blynedd hyd at fis Medi 2021, a bod y ffigur hwnnw'n codi i 40.0% yn achos y rhai 19-24 oed, mae hyn yn cymharu â 6.8% a 9.4% yn eu tro yn achos pobl ifanc heb anabledd. Yn 2025, mae'r ffigur hwn wedi gostwng i ryw 36% o bobl anabl 19-24 oed sy'n NEET, o gymharu â llai na 10% o'r rhai sydd heb anabledd.[59] Canfu adroddiad y Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2023 hefyd fod oedolion anabl yn llai tebygol o gael eu cyflogi nag oedolion heb anabledd. Er bod bwlch cyflogaeth anabledd wedi cau o 39.6% yn 2013/14 i 36.2% yn 2019/20, mae'r bwlch enillion yn ehangu. Enillodd gweithwyr anabl 15.1% yn llai yn 2019/20, o gymharu ag 8.0% yn llai yn 2013/14.

Er bod cyflogaeth â chymorth, prentisiaethau, a chyfleoedd dysgu yn y gwaith yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru, mae ymchwil yn awgrymu nad yw llawer o bobl ifanc anabl yn ymwybodol o'r rhain, neu eu bod yn methu cael mynediad atynt. Yn yr ymchwil oedd yn llywio adroddiad Paid Dal yn Ôl, ni soniodd unrhyw bobl ifanc am gyflogaeth â chymorth, prentisiaethau, na dysgu yn y gwaith, a chanfu'r ymchwilwyr fod y rhan fwyaf yn methu cael prentisiaethau oherwydd eu bod heb gyflawni'r gofynion mynediad, a bod colegau ddim yn darparu prentisiaethau rhan amser.[60] Cyflwynwyd tystiolaeth debyg o anhyblygrwydd fel rhwystr i brentisiaid i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, sy'n argymell, "mwy o hyblygrwydd o ran meini prawf cymhwyster rhaglenni cymorth allweddol i ymgeiswyr anabl."[61] Mae'n bwysig cefnogi pobl ifanc ag anableddau i elwa o Warant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru er mwyn cael cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth. Mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, hefyd wedi comisiynu ymchwil i goladu arfer da ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang ynghylch gwella amrywiaeth i lywio'r Rhaglen Brentisiaeth i'r dyfodol, sydd i gychwyn yn 2027.

Mae adroddiad Bwlch Cyflogaeth Anabledd 2025 yn archwilio'r pontio o addysg i gyflogaeth ac yn cyfeirio at bryderon a godwyd gan NCMH, DSA, EYST Cymru, ac eraill, sef bod,

---

[58] Llywodraeth Cymru. 2022. Stronger, fairer, greener Wales: A Plan for Employability and Skills. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-05/stronger-fairer-greener-wales-plan-employability-and-skills0.pdf

[59] Llywodraeth Cymru. 2025. Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET): mis Hydref 2023 tan fis Medi 2024.

[60] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid Dal yn Ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

[61] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. 2025. Anything's Achievable with the Right Support: Tackling the Disability Employment Gap. Llywodraeth Cymru.

*Myfyrwyr anabl yn colli cyfleoedd oherwydd diffyg cyngor, neu'n cael eu cyfyngu i ddewis cul o bynciau a sectorau sy'n gallu darparu addasiadau rhesymol yn haws*[62].

Er bod adroddiad Paid Dal yn Ôl wedi canfod bod llawer o bobl ifanc wedi cael profiad gwaith trwy'r ysgol ym mlynyddoedd 12 ac 13 (dros 17 oed), roedd hynny fel arfer mewn lleoliadau arbenigol i wirfoddolwyr neu amgylcheddau a neilltuwyd, yn hytrach nag yn y gymuned. Canfu'r adroddiad hefyd fod llawer o'r bobl ifanc anabl a fu'n cyfranogi yn hyn wedi cael profiadau negyddol neu annheg yn y gwaith, gan gynnwys pethau fel peidio â chael eu talu, tâl isel, cyfnodau prawf hir heb swydd yn y pen draw, neu ormod o oriau gwaith a cholli'r swydd oherwydd bod y pwysau'n mynd yn ormod.[63]

Yn ystod yr ymgyngoriadau oedd yn cefnogi adolygiad 2025, nododd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol (EHRC) Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST) a Chymdeithas Syndrom Down amharodrwydd ymhlith cyflogwyr a diffyg cyfleoedd lleoliad addas fel heriau craidd. Amlygodd Mencap Cymru ymhellach yr angen am dderbyn lefelau cyrhaeddiad is mewn Mathemateg a Saesneg i wella hygyrchedd i brentisiaid ag anableddau[64].

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyfraddau cyflogaeth pobl anabl yng Nghymru yn dal yn is nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, er bod y ffigurau'n dangos gwelliant yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r rhwystrau'n cynnwys agweddau, yn ogystal â chyfyngiadau yn yr amgylchedd adeiledig, mynediad at wybodaeth, a rhwystrau sefydliadol mewn cyd-destunau proffesiynol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd ystyrlon o ran cefnogi pobl ifanc ag anableddau i gael mynediad at leoliadau profiad gwaith a phrentisiaethau, ac i gynyddu amrywiaeth yn y gweithlu. Er bod heriau'n parhau, mae corff cadarn o dystiolaeth berthnasol ddiweddar sy'n nodi'r anawsterau craidd, ac mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gefnogi pobl ifanc anabl ac i annog busnesau i'w recriwtio a'u cadw trwy gyhoeddi canllawiau i gyflogwyr a pholisïau a rhaglenni sy'n cefnogi hynny. Ymgynghorwyd â phobl ifanc i ryw raddau ynghylch eu hanghenion a'u blaenoriaethau, er mai ychydig o dystiolaeth uniongyrchol sydd am eu profiadau o'r lleoliadau gwaith, y prentisiaethau neu'r addasiadau rhesymol a wnaed i'w cefnogi i mewn i gyflogaeth, a gallai hwnnw fod yn faes cynhyrchiol ar gyfer ymchwiliadau pellach.

---

[62] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living Framework and Action Plan. T20. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf p43

[63] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid Dal yn Ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

[64] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living Framework and Action Plan. T20. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf p45

## 2.6 Teithio a Symudedd

Her sylfaenol arall mae plant a phobl ifanc ag anableddau yn ei hwynebu yng Nghymru yw cludiant ac effaith cyfyngiadau symudedd ar allu plant i gymdeithasu, eu mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau, a'u hiechyd meddwl yn gyffredinol.

Hygyrchedd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus oedd y mater a godwyd amlaf yn ystod sesiynau ymgysylltu â phobl anabl yng Nghymru, gan gynnwys pobl ifanc, a gynhaliwyd gan Gweithredu ynghylch Anabledd i gefnogi'r Fframwaith Hawl i Fyw'n Annibynnol[65]. Nododd pobl anabl fod methu symud o gwmpas yn y gymuned leol a'r tu hwnt yn effeithio ar eu gallu i sicrhau cyflogaeth, i fynd i apwyntiadau personol a phroffesiynol, i gael mynediad i wasanaethau hamdden a chyhoeddus, ac i gwrdd â theulu a ffrindiau, sy'n cyfrannu at unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.

Mae adroddiad CPC 'Paid Dal yn Ôl' hefyd yn dod i'r casgliad bod cludiant yn rhwystr difrifol i bobl ifanc ag anableddau dysgu gymdeithasu a chael mynediad i wasanaethau a chyfleoedd. Mae eu pryderon yn cynnwys cost, argaeledd, a hygyrchedd cludiant, gan gynnwys mynediad at wybodaeth glir, ddealladwy am amserau a llwybrau, a chefnogaeth i feithrin eu hyder wrth deithio[66].

Nod yr ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o brosiect ymchwil cymheiriaid Codi Pontydd / Building Bridges oedd ymchwilio i'r sefyllfaoedd a'r cyd-destunau lle mae pobl ifanc ag anableddau dysgu yn datblygu ac yn cynnal cyfeillgarwch, ac archwiliwyd y rhwystrau a'r ffactorau lliniaru oedd yn gysylltiedig ag ynysu cymdeithasol. Amlygodd yr astudiaeth hefyd sut roedd heriau cysylltiedig â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu gwaethygu gan y pellter daearyddol rhwng plant a phobl ifanc sy'n mynd i ysgolion arbenigol, a nodwyd bod y rhwystrau hyn yn llesteirio datblygu cyfeillgarwch a chyfranogiad cymunedol[67].

Gall trafnidiaeth i'r coleg ac i leoliadau gwaith hefyd fod yn rhwystr i addysg a chyflogaeth. Mae plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu (ac eraill) sy'n methu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol yn parhau'n ddibynnol ar eu rhieni a'u rhoddwyr gofal i gael mynediad i wasanaethau a gweithgareddau cymdeithasol, ac mae hynny'n cyfyngu ar eu cyfleoedd i gymdeithasu ac yn rhoi mwy o bwysau ar deuluoedd. I deuluoedd sydd heb gar at eu defnydd, neu sy'n methu darparu cludiant oherwydd ymrwymiadau eraill, gall gwasanaethau tacsi fod yn llawer rhy ddrud[68]. Amlygwyd pwysigrwydd trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig a diffyg addasiadau rhesymol (e.e. ar fysiau ac mewn tacsis).[69]

---

[65] Llywodraeth Cymru. 2019. Action on Disability: The Right to Independent Living. Framework and Action Plan. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-09/action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf

[66] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid Dal yn Ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

[67] Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf

[68] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid Dal yn Ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

[69] Llywodraeth Cymru. 2018. Learning Disability Improving Lives Programme. Cyrchwyd o: www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/learning-disability-improving-lives-programme-june-2018.pdf

Yn 2017, cyhoeddodd CPC ddiweddariad ar adroddiad 2014 'Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal?'[70], oedd yn amlygu pryderon ynghylch mynediad cadair olwyn disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion i Lywodraeth Cymru i ddiweddaru eu canllawiau ar fynediad i ddisgyblion anabl ac i sicrhau bod pob Awdurdod Lleol ac ysgol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Canfu'r adolygiad fod gwelliannau wedi'u gwneud i'r strategaethau a'r cynlluniau hygyrchedd, ond nodwyd nad yw awdurdodau lleol yn ymgynghori â phlant a'u teuluoedd fel mater o drefn wrth lunio'u strategaethau, er bod dyletswydd statudol i wneud hynny. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad dystiolaeth galonogol o achosion lle mae ysgolion wedi cydweithio'n agos â phlant a'u teuluoedd i asesu a diwallu eu hanghenion unigol, gyda manteision clir i ysgolion, awdurdodau lleol a theuluoedd. Mae CPC yn annog pob awdurdod lleol i ystyried eu darpariaeth hygyrch trwy Ddull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant, ac mae'n cynnig 'Y Ffordd Gywir'[71], fframwaith ymarferol ac egwyddorol ar gyfer gweithio gyda phlant i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad llawn at ddarpariaeth a chyfleusterau addysg, ar sail CCUHP. Mae adroddiad CPC yn cyflwyno astudiaethau achos o bob rhan o Gymru sy'n ymwneud â phum egwyddor Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant, a sut maen nhw'n berthnasol i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â gofynion mynediad corfforol yn derbyn eu hawl i gael addysg[72]. Mae pob astudiaeth achos yn esiampl o un o'r egwyddorion allweddol: Gwreiddio hawliau plant, Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu, Grymuso, Cyfranogiad ac Atebolrwydd. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi mewnwelediad ehangach ac yn darparu argymhellion y mae modd gweithredu yn eu sgîl i wreiddio arferion da yn fwy cyffredinol.

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfyngiadau cludiant a symudedd yn cael effaith sylweddol ar deuluoedd a chyfleoedd plant a phobl ifanc ag anableddau i gymdeithasu, eu mynediad at addysg, cyflogaeth, gwasanaethau, a'u hiechyd meddwl yn gyffredinol. Codir materion ynghylch hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yn fynych yn ystod ymchwil gyda phobl anabl, gan gynnwys rhwystrau corfforol ac o ran gwybodaeth, ac mae'r sylfaen o dystiolaeth ynghylch profiadau plant a phobl ifanc yn dal yn gyfyngedig.

## 2.7 Creu a chynnal cyfeillgarwch

Mewn ymchwil a gynhaliwyd yn uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, mae heriau cysylltiedig â chreu a chynnal cyfeillgarwch yn dod i'r amlwg fel blaenoriaeth allweddol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod plant a phobl ifanc anabl yn wynebu rhwystrau lluosog, rhyng-gysylltiedig wrth gymdeithasu, gan gynnwys pethau ymarferol cysylltiedig

[70] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal. Adroddiad dilynol ar hygyrchedd ysgolion yng Nghymru i gadeiriau olwyn.
[71] Ceir esboniad llawn ar yr egwyddorion hyn a sut maen nhw'n berthnasol i'r system addysg yn y canllaw: Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant i Addysg yng Nghymru.
[72] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal. Adroddiad dilynol ar hygyrchedd ysgolion yng Nghymru i gadeiriau olwyn.

â symudedd a threfniadaeth, yn ogystal ag anhawster i greu a chynnal cyfeillgarwch ag eraill.

Yn ystod astudiaeth ymchwil cymheiriaid Codi Pontydd / Building Bridges, soniodd plant a phobl ifanc anabl yn gyson eu bod yn profi cyfleoedd cyfyngedig i gymdeithasu tu allan i'r ysgol. Er eu bod yn dymuno cael cyfeillgarwch o'r fath, roedd angen mwy o gefnogaeth ymarferol ac emosiynol a sgiliau cyfathrebu i ddatblygu eu capasiti i greu a chynnal hynny. Yn yr ymchwil cymheiriaid hwn, mae pobl ifanc yn amlygu pwysigrwydd cefnogaeth i reoli eu hemosiynau, deall pobl eraill, a dysgu sut mae cael hyd i lwybr priodol trwy wrthdaro. Mae'r cymorth ymarferol yn cynnwys logisteg trefnu a theithio i gwrdd â phobl eraill, rheoli gwariant, a rheoli amser. Mae'r sgiliau cyfathrebu yn cynnwys defnyddio ffonau a'r rhyngrwyd i gadw mewn cysylltiad, archebu tacsis, a gwybod sut mae cymdeithasu[73].

Soniwyd am gefnogaeth gan rieni, gweithwyr cymdeithasol, eiriolwyr, ac arweinwyr ieuenctid/gweithgareddau fel ffactorau galluogi allweddol[74]. Er gwaethaf y canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 yn amlinellu mesurau i sicrhau mynediad cynyddol i ddisgyblion anabl, gan gynnwys cyfranogiad mewn teithiau ysgol fel mesur allweddol, roedd rhieni pobl ifanc anabl yn adrodd bod eu plant heb fynediad at gyfleoedd preswyl trwy'r ysgol.[75]

Wrth archwilio'r pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu, mae ymchwil CPC hefyd yn awgrymu bod pobl ifanc eisiau help i greu a rheoli cyfeillgarwch[76]. Mae tystiolaeth o Awstralia[77] a Canada[78] yn awgrymu bod plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu i'w gweld yn cymryd rhan mewn llai o weithgareddau, a hynny'n llai aml, na'u cyfoedion sydd heb anabledd dysgu, a'u bod hefyd yn tueddu i fod â llai o ffrindiau.

Yn ystod astudiaeth ymchwil cymheiriaid Codi Pontydd / Building Bridges, dywedodd pobl ifanc ag anableddau dysgu fod rhieni a gofalwyr yn gallu bod yn or-amddiffynnol ac achosi rhwystr i greu cyfeillgarwch. Maen nhw'n nodi hefyd y gall rhieni ymwneud gormod â'u bywydau cymdeithasol, heb adael i blant fod yn ddigon annibynnol i ddatblygu cyfeillgarwch eu hunain. Teimlai pobl ifanc hefyd nad oedd rhieni'n cydnabod nac yn derbyn eu perthynas ramantus neu rywiol ag eraill[79].

---

[73] Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf

[74] Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf

[75] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. 2023. Ydy Plant a Phobl Ifanc Anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? Canfyddiadau Ymgysylltu. Senedd Cymru.

[76] Comisiynydd Plant Cymru. 2018. Paid Dal yn Ôl: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu.

[77] Merrells, J., Buchanan, A., & Waters, R. (2018). The experience of social inclusion for people with intellectual disability within community recreational programs: A systematic review. *Journal of Intellectual & Developmental Disability*, 43(4), 381-391.

[78] Taheri, A., Perry, A., & Minnes, P. (2016). Examining the social participation of children and adolescents with Intellectual Disabilities and Autism Spectrum Disorder in relation to peers. *Journal of Intellectual Disability Research*, 60(5), 435-443.

[79] Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf

Mae modd lleihau'r rhwystrau corfforol sy'n gallu atal pobl ifanc anabl rhag cyrraedd cyfeillion trwy ymgysylltu ar-lein; fodd bynnag, wrth deithio yn y tirlun cymdeithasol ar-lein mae pobl ifanc anabl yn wynebu set unigryw o gymhlethdodau wrth ffurfio cyfeillgarwch. Er bod y rhyngrwyd yn cynnig man i gysylltu sy'n gallu lleihau rhwystrau daearyddol a darparu mynediad at gymheiriaid unfryd, mae ar yr un pryd yn cyflwyno heriau fel amlygrwydd seiberfwlio, diffyg rhyngweithio ystyrlon, a phryderon ynghylch diogelwch ar-lein. Amlygodd astudiaeth ymchwil cymheiriaid Codi Pontydd / Building Bridges fod deilliannau deuol i'r cyfryngau cymdeithasol a chwarae gêmau ar-lein: cynyddu natur ynysig a datgysylltiad rhai pobl, ond galluogi eraill i greu a chynnal cyfeillgarwch er gwaethaf opsiynau cymdeithasu a symudedd cyfyngedig. Nodwyd hefyd fod rhieni'n gallu cyfyngu ar y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol oherwydd pryderon diogelwch[80].

Mae meithrin cyfeillgarwch yn agwedd hollbwysig ar fywyd pobl ifanc anabl ac yn faes sydd heb ei ymchwilio'n ddigonol, er gwaethaf ei arwyddocâd o safbwynt llesiant a iechyd meddwl. Mae'r sylfaen bresennol o dystiolaeth yn datgelu ystod o rwystrau sy'n llesteirio gallu plant a phobl ifanc ag anableddau i greu a chynnal cyfeillgarwch. Mae'r mewnwelediad a geir o astudiaeth ymchwil cymheiriaid Codi Pontydd / Building Bridges yn amlygu bod angen cymorth wedi'i dargedu, a hynny ar frys, ar gyfer sgiliau emosiynol ac ymarferol, yn ogystal â strategaethau cyfathrebu effeithiol, i helpu'r unigolion ifanc hyn i gael hyd i ffordd trwy eu byd cymdeithasol a ffurfio a chynnal cysylltiadau ystyrlon ag eraill.

## 2.8 Bwlio

Yn 2017, cyhoeddodd CPC Stori Sam, adroddiad oedd yn archwilio profiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru[81]. Roedd yr adroddiad yn amlygu sawl neges allweddol oedd wedi dod i'r amlwg trwy'r ddeialog gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, ac mae'r rhain yn dal yn eithriadol o berthnasol i brofiadau plant a phobl ifanc ag anableddau. Maent yn cynnwys canfyddiad o 'wahaniaeth', gan gynnwys anabledd, ymhlith ystod o nodweddion sy'n gorgyffwrdd, ac 'ynysu' a rôl amddiffynnol rhwydweithiau cyfeillion wrth leihau risg bwlio a chefnogi plant sy'n profi bwlio. Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, mae plant a phobl ifanc ag anableddau yn aml yn cael trafferth creu a chynnal cyfeillgarwch, ac mae hynny'n golygu eu bod yn fwy agored i gael eu bwlio.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl ddynol i fod yn ddiogel rhag cam-driniaeth ac esgeuluso, ac i gael eu hamddiffyn rhag niwed (CCUHP, erthygl 19). Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru (2019) yn nodi sut dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol gydweithio i ddiogelu a hybu lles plant, gyda chefnogaeth canllawiau ymarferol a ddatblygwyd gan Fyrddau Diogelu ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i rieni a gofalwyr, teuluoedd, ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, a

---

[80] Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf
[81] Comisiynydd Plant Cymru. 2017. Stori Sam: Gwrando ar brofiadau plant a phobl ifanc o fwlio yng Nghymru.

sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant ysgol a phobl ifanc, i helpu gyda materion llesiant a diogelu[82]. Er gwaethaf hynny, mae'r Gynghrair Gwrthfwlio yn adrodd bod *"pobl ifanc anabl â'r rhai ag AAAA yn sylweddol fwy tebygol o brofi bwlio – gan gynnwys bwlio ar-lein – na'u cyfoedion. Mae hynny'n arbennig o wir am blant sydd ag anableddau dysgu ac awtistiaeth"*[83]. Mae'r Gynghrair yn darparu trosolwg defnyddiol o'r dystiolaeth, gan gynnwys astudiaeth yn 2015[84] oedd yn edrych ar amlygrwydd bwlio yn yr ysgol yn ystod plentyndod cynnar (7 oed) a'r glasoed (14 oed), gan dynnu ar y dadansoddiad ystadegol o ddata cenedlaethol cynrychioliadol o Astudiaeth Carfan y Mileniwm a'r Camau Nesaf (a elwid gynt yn Astudiaeth Arhydol o Bobl Ifanc yn Lloegr). Canfu'r astudiaeth dystiolaeth gref fod plant a phobl ifanc oedd â chyflyrau cyfyngol hirsefydlog megis dystroffi'r cyhyrau neu anawsterau symudedd, yn ogystal â'r rhai oedd ag AAA, yn wynebu risg uwch o ddioddef bwlio. Roedd y cysylltiad rhwng anabledd a bwlio yn parhau hyd yn oed wrth gymryd nodweddion eraill y gwyddys eu bod yn dylanwadu ar fwlio (e.e. perfformiad yn yr ysgol, amgylchiadau sosio-economaidd) i ystyriaeth. Gall plant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol yn sgîl ffactorau corfforol, synhwyraidd, gwybyddol neu gyfathrebu sy'n amharu arnynt brofi elfennau sy'n gorgyffwrdd ac yn eu rhoi mewn sefyllfa fregus oherwydd stigma ac agweddau negyddol, wedi'u cyfuno ag anghydraddoldeb o ran mynediad at wybodaeth, gwasanaethau, ac adnoddau. Mae'n allweddol bwysig deall eu profiadau a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu i sicrhau eu bod yn derbyn eu hawliau.

Yn ystod yr ymchwil cymheiriaid a wnaed ar gyfer y prosiect Codi Pontydd / Building Bridges, soniwyd am gyfraddau uchel o fwlio ymhlith cyfranogwyr ifanc ag anableddau dysgu. Roedd hyn yn cynnwys elfennau llafar (galw enwau a iaith sarhaus), corfforol (mwy cyffredin ymhlith bechgyn na merched), lledaenu celwyddau a sïon (mwy cyffredin ymhlith merched na bechgyn), manipwleiddio, ecsbloetio a throseddau casineb, a seiberfwlio.  Soniodd cyfranogwyr yn benodol am eu hanabledd fel rheswm am y bwlio, a dywedodd llawer eu bod wedi newid ysgol o ganlyniad. Disgrifiodd y cyfranogwyr sut roedd y bwlio'n lleihau eu hunan-barch, yn eu gwneud yn fwy ynysig yn gymdeithasol, ac yn tanseilio'u hymwneud â gweithgareddau cymdeithasol ac ardaloedd cymunedol. Nododd ymchwilwyr oedd yn gymheiriaid (gan eu bod hwythau'n bobl ifanc ag anableddau), wrth roi sylw i ymatebion y cyfranogwyr, fod diffyg dealltwriaeth o natur gymhleth cyfeillgarwch gwirioneddol, a dryswch o ran emosiynau a theimladau yn sgîl ymddygiad bwlio[85].

Er gwaethaf ymrwymiad a gweithredu Llywodraeth Cymru, mae agweddau cymdeithasol a diwylliannol negyddol at anableddau yn parhau, ac mae bwlio'n

---

82 Llywodraeth Cymru. 2019. Challenging Bullying. Rights, respect, equality: guidance for parents and carers. www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-11/rights-respect-equality-guidance-for-parents-and-carers.pdf

83 Ceir adolygiad o'r dystiolaeth yma: https://anti-bullyingalliance.org.uk/tools-information/all-about-bullying/at-risk-groups/sen-disability/do-children-send-experience-more

84 Chatzitheochari, S., Parsons, S., & Platt, L. 2015. Doubly Disadvantaged? Bullying Experiences among Disabled Children and Young People in England. Sociology, 50(4), 695-713. https://doi.org/10.1177/0038038515574813 (Gwaith gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2016)

85 Butler, V. a Thomas, G. 2020. Young people and friendships: What matters to us? The Building Bridges Project. https://www.drilluk.org.uk/wp-content/uploads/2020/09/young-people-and-friendships-what-matters-to-us.pdf)

effeithio’n anghymesur ar blant a phobl ifanc ag anableddau. Mae hyn yn debygol o gael ei waethygu gan yr anawsterau o ran ffurfio a chynnal cyfeillgarwch a drafodwyd eisoes. Mae canfyddiadau GiG a gyflwynwyd yn Adran 1 hefyd yn dangos mai’r plant ag anableddau fu’n cymryd rhan oedd yn sôn amlaf am fwlio yn y cartref, o gymharu â phlant sy’n nodi nad oes ganddynt anabledd, a bod plant ag anableddau hefyd yn teimlo’n llai diogel ar draws pob lleoliad o gymharu â’u cyfoedion heb anabledd. Mae angen ymchwil pellach i ddeall profiadau pobl ifanc ag anableddau a nodi mannau a strategaethau effeithiol ar gyfer ymyrraeth.

# Adran 3: Bylchau yn yr Wybodaeth

## 3.1 Cyfleoedd Methodolegol

### Cynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau cyfranogol wrth ymchwilio gyda phlant ag anableddau

Mae corff rhesymol o dystiolaeth ynghylch heriau ac anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, ond mae eu lleisiau'n aml ar goll o'r ymchwil. Mae dadansoddiadau eilaidd o ystadegau gwladol a data Cyfrifiad wedi datgelu tueddiadau cyffredinol yn effeithiol, tra bod ymgynghori â rhieni, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar brofiadau bywyd teuluoedd a'r heriau maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae'r ymgyngoriadau â phlant a phobl ifanc sydd ag anableddau yn dal yn gyfyngedig, ac eithrio pobl ifanc yn y glasoed, sydd ar drothwy oedolaeth. Mae'r rhan fwyaf o ymgyngoriadau â phlant yn defnyddio fformatau trafod un-i-un neu drafodaethau grŵp ffocws bach, ond nid adroddir yn systematig ar y dulliau a ddefnyddir, ac mae'n aml yn aneglur i ba raddau y defnyddiwyd dulliau cynhwysol a chyfranogol priodol. Ymddengys bod holiaduron ar ffurf arolwg a weinyddir trwy ysgolion, gyda chefnogaeth athrawon i'r plant iau, yn ddull cymharol effeithiol, gyda chyfraddau ymateb uchel o ryw 75%, yn ôl y data sydd ar gael.

Ymddengys bod bylchau gwybodaeth fethodolegol sylweddol a systemig o ran gweithio gyda phlant ifanc i ddeall ac adrodd ar eu profiadau bywyd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu, er gwaethaf yr ymrwymiadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ymarferol, bod gan y gymuned ymchwil gapasiti cyfyngedig i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd ag anableddau at ddibenion ymchwil. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos plant ag anableddau dysgu a phlant iau (o dan 11 oed), sydd yn cael eu cynrychioli'n anaml iawn yn y sylfaen o dystiolaeth y tu hwnt i ymchwil CPC. Fodd bynnag, nid yw'r cynnyrch gwybodaeth a'r adroddiadau ymchwil sydd ar gael yn sôn yn benodol am y bylchau hyn, nac yn cydnabod y diffyg hwn fel ffactor sy'n cyfyngu ar y fethodoleg.

### Hybu / darparu esiampl o ymgysylltiad pobl ifanc ag ymchwil

Mae ymgysylltiad pobl ifanc wrth ddylunio ymchwil, nodi cwestiynau ymchwil allweddol, a dadansoddi'r canfyddiadau hefyd yn parhau'n gyfyngedig ar draws pob sector a maes thematig; yn aml nid ymgynghorir â phobl ifanc ynghylch patrwm ymchwil na datblygiad cwestiynau ymchwil, ac nid ydynt yn rhan o hynny, na chwaith o ddadansoddi data a chynyddu ymwybyddiaeth o'r canfyddiadau.

Fodd bynnag, mae'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan brosiect ymchwil cyfoedion Codi Pontydd / Building Bridges drwy ymgysylltu â phobl ifanc i lywio'r amcanion ymchwil a hwyluso'r broses o gasglu'r data yn addawol, ac yn cynnig cyfleoedd i roi sylw i'r eithrio systematig sy'n digwydd. Gallai datblygu dulliau o weithio gyda phlant sydd ag anableddau fel cymheiriaid ymchwil, a chynyddu ymwybyddiaeth ac eiriolaeth ynghylch safoni'r model hwn fel arfer da fod yn gyfraniad gwerthfawr i'r sylfaen o

dystiolaeth a sbarduno effaith ar draws y sector a'r tu hwnt. Petai modd i'r mewnwelediad hwn gyfrannu at ddatblygu canllawiau ymarferol i gefnogi gweithrediad y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anableddau, gellid sbarduno newidiadau systemig ar draws y gymuned ymchwil. Byddai'r dull gweithredu hwn hefyd yn cyfrannu at rai o'r meysydd thematig allweddol a nodwyd yn y dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli: cefnogi gallu i weithredu a chwyddo llais, datblygu sgiliau cymdeithasol a phroffesiynol, darparu cyfleoedd i gymdeithasu, a galluoedd a allai gyfrannu at yrfaoedd yn y dyfodol. Gallai cynnwys elfen Hyfforddi'r Hyfforddwyr (fel bod gan ymchwilwyr ifanc profiadol y gallu i hyfforddi rhai yn eu lle wrth fynd heibio'r trothwy oed) gyfrannu hefyd at gynaliadwyedd y model a datblygiad parhaus a mireinio arferion da a dysgu a wreiddiwyd.

### Archwilio sut mae plant yn deall anabledd ac yn nodi bod ganddynt anabledd eu hunain, a hybu safoni er mwyn gwella'r sylfaen o dystiolaeth

Mae'r niferoedd uchel o blant a phobl ifanc a ymatebodd eu bod yn 'ansicr' i'r cwestiwn anabledd yn arolwg GiG yn amlygu her a allai fod yn enfawr yng nghyswllt sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y data sydd ar gael ynghylch plant ag anableddau ar draws y sylfaen o dystiolaeth, ac mae'n bwysig rhoi sylw i hyn yn y canllawiau safonol ar gyfer ymchwil sy'n targedu plant a phobl ifanc ag anableddau.

Os yw plant a phobl ifanc yn ansicr a ydynt yn anabl neu beidio, gallai hynny greu goblygiadau dwys i astudiaethau ymchwil mewnol ac allanol. Gallem fod yn tangynrychioli plant ag anableddau'n systematig, neu'n tawelu lleisiau plant â mathau penodol o anabledd. O ganlyniad, mae'n bwysig deall pwy sy'n dweud bod ganddynt anabledd eu hunain, a phwy sydd ddim, a pham mae cynifer o blant yn ansicr a ddylen nhw nodi eu bod yn anabl at ddibenion astudiaethau ymchwil. Gallai hwn fod yn faes ymchwil bellach diddorol a gwerthfawr hefyd.

### Plant a rhieni ag anableddau

Oddi mewn i gwmpas ymgynghoriad GiG, nid oedd modd ymchwilio i brofiadau teuluoedd lle roedd gan y rhiant neu'r gofalwr a'r plentyn neu'r plant anableddau. Nid oedd modd chwaith croesgyfeirio'r ymatebion a gafwyd gan y plant a'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan â'r rhai a ddarparwyd gan rieni a gofalwyr er mwyn deall y sefyllfa o bersbectif nifer o ymatebwyr o'r un aelwyd. Nid yw'r sylfaen o dystiolaeth a gyflwynir yn Adran 2, felly, yn trafod profiadau gwahanol fathau o aelwydydd, ac ymddengys hefyd fod yma ymchwil annigonol ar draws y sylfaen o dystiolaeth. Ymddengys yn debygol y gallai aelwydydd sy'n cynnwys plant a rhieni neu ofalwyr sydd fel ei gilydd yn anabl wynebu heriau arbennig o gymhleth wrth gyrchu gwasanaethau, addysg, cyflogaeth, teithio, cymdeithasu etc. O ganlyniad, doeth fyddai archwilio profiadau a chwyddo lleisiau'r teuluoedd hyn, gan yr ymddengys eu bod wedi'u tangynrychioli yn y sylfaen o dystiolaeth.

### Cydnabod cyfraniadau plant i ddeilliannau ymchwil

Os oes bwriad i wneud ymchwil bellach, byddai'n ddoeth iawn sicrhau ei bod yn cyfateb yn fanwl i ddeilliannau y mae modd gweithredu yn eu cylch, a bod plant a phobl ifanc sy'n gyfranogwyr yn cael gwybod am y deilliannau a sbardunwyd, ac yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad i'r ymchwil. Er mwyn cynnal awydd i fod yn rhan o ymchwil, a'i pherchnogi, mae'n hanfodol darparu crynodebau hygyrch o'r deilliannau ymchwil i'r holl gyfranogwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd ag anableddau. Byddai hefyd yn ddoeth amlygu ble bu ymchwil flaenorol yn llywio penderfyniadau polisi a chydnabod cyfraniadau plant ag anableddau i'r broses wleidyddol, er mwyn sbarduno mwy o ymgysylltiad â phrosesau gwleidyddol yn y tymor hwy.

## 3.2 Cyfleoedd thematig

Yn thematig, mae'r corff presennol o dystiolaeth yn gymharol amrywiol. Mae tystiolaeth rymus ynghylch anghydraddoldeb eisoes yn bodoli, a chefnogir hynny gan dystiolaeth bersonol bwerus, sy'n argyhoeddi, gan deuluoedd sydd wedi teimlo effaith hynny. Mae astudiaethau ymchwil yn tueddu i amlygu heriau tebyg a nodi argymhellion tebyg ar gyfer gweithredu ar draws meysydd thematig, sy'n arwydd bod angen sicrhau gwell cyfatebiaeth rhwng y dystiolaeth a gynhyrchir a phenderfyniadau polisi yn gyffredinol.

### Symudedd a thrafnidiaeth

Mae cludiant yn faes dylanwad sy'n dod i'r amlwg lle gellir gweithredu, ac mae effeithiau eang yn bosibl i blant a phobl ifanc ag anableddau. Thema sy'n codi droeon ar draws y sylfaen o dystiolaeth (ond sy'n anfynych yn amcan penodol mewn astudiaethau) yw'r rhwystrau symudedd mae pobl ifanc ag anableddau yn eu hwynebu. Mae data arolwg GiG hefyd yn awgrymu bod pobl ifanc ag anableddau yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus. Cyfeirir yn eang at fynediad at gludiant fel rhwystr i gynhwysiad a chyfranogiad, sy'n effeithio ar gyfleoedd i gymdeithasu a gwneud gweithgareddau hamdden, mynediad i wasanaethau, a chyfleoedd i gael cyflogaeth ac addysg yn achos plant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, ac mae hynny'n arwain at oblygiadau pellach o ran iechyd meddwl a llesiant.

Er bod cost ac argaeledd yn effeithio ar bob plentyn a theulu, mae hygyrchedd yn cyflwyno rhagor o rwystrau (y gellid eu hatal) sy'n cyfyngu ar symudedd plant ag anableddau. Yn hyn o beth, gallai fod yn ddoeth ymchwilio i ba raddau mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn ystyried ac yn ymateb yn briodol i anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru, a pha newidiadau allai gael eu gwneud i wella'r ddarpariaeth i'r defnyddwyr hyn a'u teuluoedd.

### Addysg

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw amgylcheddau addysgol ac addysgeg bob amser yn briodol i ddysgwyr ag anableddau a myfyrwyr niwroamrywiol yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Mae plant a phobl ifanc ag anableddau (a rhai heb anabledd,

yn ôl canfyddiadau ymgynghoriad GiG[86]) yn cael trafferth ymgysylltu â phrosesau gwneud penderfyniadau ar hyd eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn wynebu cyfleoedd cyfyngedig i fynd ar ôl eu dyheadau a'u datblygu. Mae canfyddiadau GiG hefyd yn awgrymu bod plant ag anableddau yn fwy tebygol na'u cyfoedion heb anabledd i fod yn anhapus yn yr ysgol, ac mae plant a phobl ifanc ag anableddau hefyd yn pryderu'n amlach am fynd i'r ysgol.

Mae goblygiadau pellgyrhaeddol i hyn o ran eu gyrfaoedd, eu sefydlogrwydd ariannol, eu cyfeillgarwch ag eraill a'u llesiant i'r dyfodol. Mae Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn 2024, sy'n archwilio gwahaniaethau o ran mynediad plant a phobl ifanc ag anableddau at addysg a gofal plant yn datgelu anghydraddoldeb parhaus, ac yn datblygu argymhellion y mae modd gweithredu yn eu cylch ar gyfer gweithredu pellach gan Lywodraeth Cymru. Gallai fod angen ymchwil bellach i gefnogi'r argymhellion hyn.

### Prentisiaethau a chyflogaeth

Mae ymchwil Llywodraeth Cymru yn 2025 ar y Bwlch Cyflogaeth Anabledd yn darparu tystiolaeth sy'n argyhoeddi bod pobl ag anableddau yn wynebu rhwystrau parhaus i gyflogaeth, gan gynnwys agweddau negyddol at bobl anabl, yn ogystal â'r heriau corfforol a achosir gan yr amgylchedd adeiledig.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth uniongyrchol yn dal yn gyfyngedig ynghylch profiadau pobl ifanc anabl o leoliadau gwaith, prentisiaethau, neu'r addasiadau rhesymol a wnaed i'w cefnogi i gael cyflogaeth. Gallai hwn fod yn gyfle amserol i archwilio ymhellach brofiadau bywyd pobl ifanc ag anableddau.

### Creu a Chynnal Cyfeillgarwch

Ar draws y sylfaen o dystiolaeth, mae plant a phobl ifanc anabl, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, yn aml yn mynegi eu hawydd i gael mwy o gyfleoedd a chefnogaeth i ddatblygu a chynnal cyfeillgarwch ac i gydnabod a rhoi sylw i fwlio, gan ofyn am gymorth ymarferol, mwy o gyfleoedd i gael cefnogaeth emosiynol, a sgiliau cyfathrebu gwell. Yn y data o arolwg GiG a gyflwynwyd yn Adran 1, mae pobl ifanc ag anableddau yn fwy tebygol o bryderu am eu hiechyd meddwl na'u cyfoedion heb anabledd. Mae diogelwch yn dal yn bryder i rieni a gofalwyr, a hynny mewn cyd-destunau diriaethol ac ar-lein, a gall hynny gyfyngu ar ryddid plant a phobl ifanc ag anableddau i sefydlu cyfeillgarwch, yn ogystal â pherthnasoedd rhamantus. Mae bwlio'n dal yn arbennig o broblematig i blant a phobl ifanc ag anableddau, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall cyfeillion a rhwydweithiau cymdeithasol leihau'r achosion o fwlio.

Gallai ymchwil bellach ac astudiaethau achos llwyddiannus ddarparu tystiolaeth o arfer da, a chasglu tystiolaeth i gefnogi deilliannau mwy o gyfleoedd a chapasiti i gynnal cyfeillgarwch a pherthynas ymhlith plant a phobl ifanc ag anableddau.

[86] Stones, L. 2023. Gobeithion i Gymru: Canlyniadau'r arolwg a dadansoddiad o brofiadau a gobeithion plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru, a'u blaenoriaethau i'r Comisiynydd. Comisiynydd Plant Cymru.

### Perthnasoedd oddi mewn i deuluoedd

Wrth ddadansoddi'r data ar draws set ddata GiG gan blant a phobl ifanc sy'n nodi bod ganddynt anabledd (gan gydnabod cyfyngiadau'r sylfaen honno o dystiolaeth at y diben hwn), amlygwyd canfyddiadau annisgwyl o ran deinameg aelwydydd a bwlio yn y cartref. Mae dadansoddi data demograffig set ddata GiG hefyd yn datgelu cyfatebiaeth rhwng pobl ifanc sy'n nodi eu bod yn anneuaidd a'r rhai sy'n nodi bod ganddynt anabledd, ond oherwydd maint sampl bychan y grŵp hwn, nid oes modd dod i gasgliadau ynghylch y gyfatebiaeth â bwlio. Mae'r rhain yn feysydd ymchwil sensitif, ac nid ydynt yn themâu a amlygwyd mewn astudiaethau eraill a gynhaliwyd gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau yng Nghymru. Gallai hyn, felly, fod yn arwydd o heriau cudd ar lefel yr aelwyd o ran perthnasoedd llawn parch a bwlio yn y cartref. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth ddigonol i ddod i gasgliad ynghylch ystyr y canfyddiadau hyn.

Pan fo plant yn profi bwlio gartref, mae hynny'n debygol o gael effaith niweidiol ar eu llesiant emosiynol a'u hunan-barch, a all yn ei dro eu hatal rhag cyflawni hyd eithaf eu potensial yn gymdeithasol ac yn academaidd. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gofalu am blant a phobl ifanc anabl yn derbyn yr offer a'r adnoddau i gynnal eu llesiant cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r dystiolaeth a data'r arolwg a gasglwyd gan rieni a gofalwyr yn ystod ymgynghoriad GiG hefyd yn awgrymu eu bod yn wynebu heriau sylweddol wrth gyrchu cefnogaeth iddynt eu hunain a'r plant yn eu gofal, ac mae hynny'n debygol o gyfrannu at rwystredigaeth a straen y teuluoedd dan sylw. Byddai angen ymchwil a luniwyd yn sensitif i archwilio profiadau plant a phobl ifanc ag anableddau yng nghyd-destun eu teuluoedd.